

TYSTIOLAETH
CYMDEITHAS YR
IAITH GYMRAEG



Y GALW AM
DDEDDFWRIAETH
NEWYDD

MAWRTH 2009

Fersiwn 2

ATODIAD 1

Bum yn aros yn Neuadd Bodysgallen ger Llandudno dros y penwythnos, sydd bellach wedi ei brynu gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Synais nad oedd unrhyw Gymraeg ar gyfyl y llyfryn gwybodaeth nac ychwaith ar fwydlenni'r gwesty.

Tasai hwn yn westy preifat, efallai y byddwn wedi 'derbyn' y peth, ond siawns bod gan yr Ymddiriedolaeth - ac yntau'n gorff cyhoeddus - bolisi iaith yn ei le?

Euros Wyn

ATODIAD 2

BT - modd ffonio'n Gymraeg am ymholiadau syml yn ymwneud a'r bil ayb, ond unwaith mae angen trafod materion technegol (ee newid cyflenwyr - naill ai wrth BT neu atynt neu adrodd broblemau am y llinell ffon ayb) dim ond yn Saesneg gellid gwneud hynny. Does dim manylion penodol 'da fi, ond o brofiad gwasanaeth Cymraeg cyfyngedig iawn ges i.

HSBC - modd ffonio'n Gymraeg i drafod manylion y cyfrif, newid taliadau ayb, ond dwi bron yn siwr fod yn rhaid troi i'r Saesneg wrth ddelio a chardiau credyd ac ymholiadau mwy cymhleth.

Llyr Griffiths Davies

ATODIAD 3

Fel rhan o'ch tystiolaeth i gael Deddf Iaith sy'n cynnwys gofynion ar gyfer y sector breifat, dyma rai enghreifftiau o'm profiad i:

Siop leol yn Nolgellau yn gwrthod siec wedi ei hysgrifennu yn Gymraeg.

Siop leol yn Nolgellau yn gwrthod codi arwydd sy'n cynnwys y Gymraeg er bod llawer o siopau'r dref yn rhai Cymraeg neu ddwyieithog yn dweud nad oes gofyn am y fath arwyddion!!!

Atebion swta ac anghwrtais wrth ofyn am rywbeth yn Gymraeg mewn siopau, gwestai ayb. Mae hyn yn peri i rywun ymatal rhag gofyn eilwaith - rhaid cael safon ymddygiad.

Bwydlenni ac arwyddion mewn gwestai, caffis, siopau wedi eu cyfieithu yn anghywir o hyd - mae hyn yn sarhau cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith. Os nad ydynt yn gywir, dylid eu hail-wneud.

Hefyd, ar ôl treulio bron i wnos yn Ysbyty Maelor Wrecsam hefo un o'r plant bythefnos yn ôl, mae'r arwyddion Cymraeg yno yn aml yn wallus, mae llawer iawn o'r staff, er yn broffesiynol, yn gyndyn o ddweud gair yn Gymraeg - *nos da* i fy mhlentyn blwydd oed neu *ta ta* hyd yn oed ar ôl i rywun ei ailadrodd droeon - does dim diwylliant sy'n croesawu'r Gymraeg yno o gwbl nac un sy'n cymell gwneud i rywun deimlo'n gyffyrddus yn defnyddio eu hiaith.

Gwerfyl Price

ATODIAD 4

Rwy'n gweithio i Undeb Amaethwyr Cymru fel Swyddog Gweithredol Sirol yn yr hen Sir Gaernarfon. Un rhwystredigaeth sydd yn peri gofid i fi ar hyn o bryd yw y ffaith nad yw Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain yn fodlon danfon mantolenni chwarterol yn y Gymraeg i geidwaid gwartheg y wlad. Maent yn eu danfon yn uniaith Saesneg, ond gydag atodiad sydd yn rhoi fersiwn Gymraeg "blank" iddynt.



British Cattle
Movement Service

Gwynedd Watkin
Undeb Amaethwyr Cymru
Cangen Caernarfon
Llys Amaeth
2 Stryd y Castell
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SE

12 February 2009

Annwyl Gwynedd Watkin

Ynghylch: Defnyddio'r laith Gymraeg

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20^{fed} Ionawr yn mynogi siom cich aelodau nad yw Datganiadau Gwartheg yn cael eu hargraffu yn y Gymraeg.

Yn anffodus nid yw'r cyfleusterau sydd ar gael i ni yn ein galluogi i gyhoeddi Datganiadau Gwartheg yn y Gymraeg. Oherwydd hyn, rydym wedi cyhoeddi fersiwn Gymraeg o dempled y Datganiad ac wedi cynhyrchu nodiadau cyfarwyddyd Gymraeg er mwyn cynorthwyo ceidwaid yng Nghymru i lenwi eu Datganiadau Gwartheg.

Rydym wedi trafod hyn gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac maent yn fodlon bod y rhain yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i geidwaid er mwyn eu galluogi i lenwi'r Datganiad.

Ymddiheurwn nad oedd modd i ni fodloni disgwyliadau eich aelodau drwy gynhyrchu'r datganiad yn llawn yn y Gymraeg. Fodd bynnag, rydym wrthi'n uwchraddio SOG Ar-lein a fydd yn galluogi ceidwaid i weld gwybodaeth yn electronig a fyddai'n ymddangos ar eu datganiad. Bydd yr wybodaeth hon hefyd ar gael ar y fersiwn Gymraeg o SOG Ar-lein.

Yr eiddoch yn gywir

Angela Murphy
Rheolwraig Gweithrediadau GSGP



Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain
Curwen Road, Workington, Strydd Cumbria, CA14 2DD

SOG Ar-lein: www.bcms.gov.uk

Llinell Gymorth: 0845 050 1234

Llinell Gymorth Gymraeg: 0845 050 3456

Llun - Gwener: 8am tan 5.30pm

Sadwrn: 9am tan 1pm (gwasanaeth cyfyngedig)

E-bost: bcms_enquiries@bcms.rpa.gsi.gov.uk

Ffacs: 01900 702051

Ein cyfeirnod: 11278684

UNDEB AMAETHWYR
13 FEB 2009
CYMRU CAERNARFON

Gwyn
Cof i Nade
J. Jones
13/2/09
J

GWYNEDD WATKIN
SWYDDOG GWEITHREDOL SIROL / COUNTY EXECUTIVE OFFICER
SIR GAERNARFON - CAERNARFONSHIRE
UNDEB AMAETHWYR CYMRU - FARMERS' UNION OF WALES

ATODIAD 5

COPI O LYTHYR WEDI EI DDANFON AT BRIF WEITHREDWR YSBYTY GWYNEDD GAN BETHAN WYN JONES

Prif Weithredwr
Ysbyty Gwynedd
Penrhosgarnedd
Bangor
Gwynedd
LL57 2PW

15fed Mawrth 2009

Annwyl Syr/Madam

Mae'n ddrwg gen i orfod ysgrifennu atoch gyda chŵyn.

Ddoe, euthum i fewn i Uned Endosgopi Ysbyty Gwynedd am archwiliad. Roeddwn wedi darllen y llawlyfr yn ofalus cyn mynd i mewn ac wedi arwyddo fy nghaniatâd ar y dudalen Gymraeg. Wedi i mi fynd i mewn i'r ystafell driniaeth, cefais fy nghyfarch yn garedig iawn gan y llawfeddyg Mr Abdullah ond gofynnodd i mi a fuaswn yn fodlon arwyddo y darn Saesneg yn ogystal â darn Cymraeg. Pan ofynnais "Pam?", eglurodd un arall oedd yn yr ystafell, gŵr ifanc barfog na chefais mo'i enw, fod hyn am nad oes dilysrwydd cyfreithiol i'r iaith Gymraeg. Eglurhad Mr Abdullah oedd am nad oedd yn deall yr iaith Gymraeg, a nododd ei fod wedi arwyddo y rhan Gymraeg.

Doeddwn i ddim yn hapus o gwbl am hyn a gofynnais am gael fy ngŵr yn yr ystafell. Am nad aeth unrhyw un i'w nôl, gwnes hynny fy hun. Yn gwbl groes i'm hewyllys, arwyddais y darn yn Saesneg yn ogystal ag yn Gymraeg, onide yr awgrym oedd ymhlyg yn ymarweddiad y rhai oedd yn bresennol oedd na fyddwn yn derbyn yr archwiliad.

Carwn wneud yn gwblw glir nad oes gen i gŵyn o gwbl am y gofal meddygol a dderbyniais gan bawb a fu'n ymwneud â mi ond mae sawl peth yn fy mhoeni am yr hyn ddigwyddodd. Ar wefan GIG Gogledd Orllewin Cymru, nodwch "*Mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth wneud ei gwaith cyhoeddus, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.*"

Ymddengys, serch eich bod wedi mabwysiadu'r egwyddor hon, nad yw yn cael ei rhoi ar waith gennych. Yn amlwg, yn yr ystafell driniaeth yr Uned Endosgopi ar 14eg Mawrth 2009, doedd y Gymraeg a'r Saesneg ddim yn gyfartal. Achosodd hyn boen a phryder i mi, ac roeddwn yn ddigon nerfus yn barod wrth feddwl am y driniaeth oedd o'm blaen. Dydw i ddim yn credu mai hyn yw 'gofalu' am gleifion.

Carwn dderbyn ymddiheuriad diamod, llawn am yr hyn ddigwyddodd i mi a sicrwydd na fydd neb arall yn gorfod dioddef yr hyn y bu'n rhaid i mi ei ddioddef, a chael gwrthod eu llofnod yn Gymraeg.

Nodwch hefyd ar eich gwefan: *Mae Cymru'n genedl ddwyieithog. Oherwydd amrywiaeth ieithyddol y boblogaeth, mae'n bwysig fod gwasanaethau clinigol yn cael eu darparu yn y ddwy iaith.*

Roedd tri yn yr ystafell driniaeth, ond dim ond un o'r rheiny oedd yn siarad Cymraeg. O ystyried eich geiriau ar y wefan, a'r ffaith fod 76% o boblogaeth Gogledd Orllewin Cymru yn siarad Cymraeg, sut gellwch egluro fod dau allan o'r tri yn ddi-Gymraeg? Onid 'gofalu am gleifion' yw sicrhau fod yn rai sy'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd yn deall ac yn siarad iaith y cleifion sy'n mynychu Ysbyty Gwynedd?

Fel y gwelwch isod, rwy'n tynnu sylw Ieuan Wyn Jones, Aelod y Cynulliad dros Fôn at y mater hwn, a hefyd Alun Ffred Jones, y Gweinidog yn y Cynulliad sydd â gofal dros yr iaith Gymraeg.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich sylwadau.

Bethan Wyn Jones

ATODIAD 6

Dechrau mis Chwefror, cafodd ffenest stafell ffrynt ei dorri gan pobl ifanc yn taflu peli eira a wedyn yn rhedeg i ffwrdd. Galw'r heddlu. Neb yn dod y noson yna ond rhywun o'r enw Jeanette yn gadael neges ar fy ffon yn cynnig ddod i'm weld y bore wedyn. Anfonais Ebst yn ol i ofyn am Gwasanaeth Cymraeg. Hyd yma does neb wedi gysylltu yn oll!

Dwi wedi roi gorau gofyn am gwasanaeth Cymraeg yn Tesco Yr Wyddgrug oherwydd yr embarass o'r Supervisor yn mynd o un cashier i'r llall yn gofyn 'Do you speak Welsh?' ac oherwydd yr amser rhaid i mi sefyll ac aros. Mae hyn wedi digwydd tro ar ol tro a mae'n drwg gen i ddweud fod fi ddim hyd yn oed yn gofyn dyddiau yma.

Oherwydd fod Yr Wyddgrug ar y ffin efo Lloegr, a'r nifer fach iawn o Cymru Cymraeg sy'n fodlon neu yn rhy swil i sefyll i fyny am eu hawliau, dydi busnesau ddim yn cael y neges fod y Gymraeg yn bwysig.

Pob hwyl

Ann Davies

ATODIAD 7

Yn anffodus rwyf wedi gorfod ffonio'r meddyg allan o oriau gwaith lawer oweithiau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf a phob tro maen't yn gofyn Cymraeg neu Saesneg a phob tro heb eithriad ar ol dal am ychydig maen't yn dweud fod y linell Gymraeg yn brysur a rhoi fi drwodd i'r linell gymorth Saesneg.

Gan fy mod mewn argyfwng ar y pryd byddaf yn falch o gael siarad ag unrhyw un ond mae wedi fy nharo fod hyn yn digwydd bob tro.

Helen Jones

ATODIAD 8

Mae cwmni/corff o'r enw 'PRS for Music' yn mynd ar ol nifer o gwmnïau ar hyn o bryd i gasglu arain trwydded er mwyn cael chwarae cerddoriaeth Cymraeg mewn mannau cyhoeddus e.e siopau, gwestai, tai bwyta, gweithdai, swyddfeydd. Dim darpariaeth Gymraeg o gwbl ganddynt, ac rwy'n bwriadu gwrthod talu hyd nes y gallaf wneud hynny yn Gymraeg ganddynt. Gweler http://www.prsformusic.com/playingbroadcastingonline/music_for_businesses/pages/doineedallicence.aspx a m fwy o wybodaeth.

Cofion

Geraint

ATODIAD 9

Mae pob blaenor yn yr Eglwys Bresbyteraidd (a phob enwad arall am a wn i) wedi gorfod cael datgeliad CRB yn ddiweddar. Er bod y ffurflengais ar gael yn y Gymraeg, nid yw'r datgeliad ei hun yn y Gymraeg nac hyd yn oed yn ddwyieithog. Anfonais fy natgeliad yn ôl i Lerpwl gan wrthod ei dderbyn yn Saesneg a chefais lythyr digan cwrtais gyda'r troad bron yn esbonio, yn Gymraeg, nad oedd modd cael datgeliad mewn unrhyw iaith ond Saesneg. Yn ôl y llythyr, mae'r CRB yn trafod ar hyn o bryd â Bwrdd yr Iaith i weld os oes modd cynhyrchu datgeliad dwyieithog, ond byddai hynny yn y dyfodol pell mae'n debyg. Dw i'n gwrthod derbyn fy natgeliad ac yn synnu bod cymaint o Gymry wedi derbyn y ddogfen yn Saesneg heb gwyno dim.

Isod mae copi o'r llythyr ges i o Lerpwl.

Richard Snelson

Preifat a Chyfrinachol	Rhif Ffôn:	0151 676 1303
Mr Richard Snelson	Minicom:	0870 90 90 344
1 Llys Dyffryn	Cyfeirnod Cwsmer:	19572545
Dinbych	Ein Cyfeirnod:	CRB201A
Sir Ddinbych	Dyddiad:	06 Chwefror 2009
LL16 4BB		

Annwyl Mr Snelson

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Chwefror 2009, ynghyd â'ch Datgeliad Safonol, sy'n gofyn am gopi Cymraeg o'ch Datgeliad Safonol.

Yn unol â Rhan V o Deddf Heddlu 1997, mae'n angenrheidiol i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) ddatgelu cofnod troseddol ac unrhyw wybodaeth llywodraethol, fel y'u cofnodir yn y cofnodion yn ganolog. Gan y cofnodir y wybodaeth hyn yn Saesneg yn unig, byddwn yn cyhoeddi Datgeliadau yn Saesneg yn unig. Mae cofnodion y llywodraeth ganolog yn cyfeirio at Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC), gwybodaeth Heddlu Lleol (LPF) a rhestrau o'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF), Diogelu Oedolion Bregus (POVA) a Deddf Diogelu Plant (POCA).

'Rwyf wedi siarad a Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â'r mater hwn ac mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) yn adolygu'r posibilrwydd o gynhyrchu Datgeliad dwyieithog. Fodd bynnag, mae hyn yng nghyfnod cynnar yr adolygiad.

'Rwyf wedi dychwelyd eich Datgeliad Safonol ac os ydych angen unrhyw gymorth pellach, peidiwch oedi rhag cysylltu gyda mi.

Yn gywir



Sandra Rea
Cyfathrebiaeth Allanol y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)

Amg.

ATODIAD 10

Tan ryw bedair blynedd yn ôl roeddwn yn bancio gyda "Abbey National". Ysgrifennais i'w pencadlys i ofyn iddynt ystyried defnyddio/ymddangos rhywfaint o Gymraeg yn eu busnesau ar draws Cymru. Gwrthodon yn llwyr ac, o ganlyniad, newidiais i fancio gyda "LloydsTSB".

Gwyn Hopkins.

ATODIAD 11

Y diffyg arwyddion dwyieithog sy'n fy nghythraddo ym Maes Awyr Caerdydd. Mae ambell un dwyieithog yma ac acw, ond mae nifer yr arwyddion uniaith Saesneg yn destun siom ac yn dangos diffyg parch.

Hoffwn i weld mwy o ddefnydd ar y bathodynau 'coma' oren roedd Bwrdd yr Iaith yn eu cynhyrchu (dwn i ddim ydyn nhw'n dal i'w gwneud) i ddynodi siaradwyr Cymraeg mewn tai bwyta, tafarnau ac ati. Mae

campfeydd, e.e.Esporta yng Nghaerdydd a Phen-y-bont yn llefydd eraill basai'n braf gweld arwyddion dwyieithog ynddynt, ac yn yr un modd, gwesty'r Village yn Coryton ger yr Eglwys Newydd, Caerdydd - mae'r lle'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan siaradwyr Cymraeg, ond doedd dim un arwydd Cymraeg yno y tro diwethaf imi ymweld a'r lle.

Peth siomedig iawn a ddigwyddodd imi yn Ionawr oedd methu a chyflwyno fy manylion treth drwy'r Gymraeg arlein. Roedd modd gwneud y llynedd, ond eleni, mae'r Inland Revenue yn ailwneud eu gwefan, a doedd y fersiwn Gymraeg ddim ar gael. Braff, fodd bynnag, yw fod llinell gymorth Gymraeg ganddyn nhw rwy'n ei defnyddio'n gyson, ac mae'n ardderchog.

Mae Cyngor Sir Caerdydd yn darparu rhyw fath o wasanaeth ddwyieithog (anodd yw cael siaradwr Cymraeg, a pharon nhw imi deimlo'n lletchwith am ofyn am un). Mae gwallau iaith difrifol yn eu negeseuon, e.e. 'Os MAE problem gyda chi, ffonia...'

Owen Saer

ATODIAD 12

Does dim darpariaeth Cymraeg ar wefan Cyngor Penybont, er i fi a sawl un arall o'r bwrdeistref cwyno. Mae'r cyngor yn mynnu rhoi'r Saesneg uwchben y Cymraeg, er ei fod yn rhatach rhoi'r Cymraeg yn cyntaf ee." Alfred Street. Stryd Alfred" yn presennol, "Stryd Alfred Street".

Mae'r cyngor newydd rhoi arwyddion dwyieithog newydd, lle 'roedd yr enwau yn uniaith Cymraeg. Mae'r heol sy'n rhedeg o safle ysbyty Maesteg i pentref Nantyllyn, bod tro wedi cael ei adnabod fel "Heol Ty Gwyn" oherwydd o fferm Ty Gwyn. Mae'r cyngor wedi newid yr arwydd uniaith Cymraeg sydd wedi bodoli am blynnydoedd, ac wedi rhoi arwydd newydd o "Heol Ty Gwyn. White House Road". Canolbwyntio ar darparu wefan Cymraeg dyle'r cyngor, yn hytrach na rhoi arwyddion Saesneg mae neb wedi gofyn amdanynt. Ag eithrio arwyddbyst i Penybont, mae'r arwyddion yng Nghwm Llynfi yn uniaith Cymraeg, oherwydd mae'r tref a pentrefi y cwm yn enwau Cymraeg, ee Maesteg, Llangynwyd, Cwmllyn, Caerau ac ati. Gobeithio fod y cyngor dim yn bwriadu rhoi fersiwn Saesneg ar yr enwau yma.

Illtyd ap Dafydd

ATODIAD 13

Rwy wedi cael gwasanaeth gwarthus yn ddiweddar gan y Swyddfa Basportiau. Rwy wedi gwneud cwyn swyddogol ynglyn a'r peth ond nid ydw wedi derbyn unrhyw ymateb hyd yma.

Yn fras - fe fues i at fy Swyddfa Bost leol er mwyn gofyn am ffurflen Gymraeg i adnewyddu pasport. Doedd dim ar gael ac fe ddywedwyd y bydde rhai yn cael eu harchebu. Es i nol wythnos yn ddiweddarach - ond doedd dim ar gael. Gofynnwyd i fi alw nol ymhen wythnos arall - fe wnes i - ond doedd dim ar gael.

Felly fe awgrymwyd wrthyf y dylwn ymweld a wefan y Swyddfa Basport. Fe wnes i - a llenwi tudalen oedd i fod i anfon ffurflen Gymraeg ata i. Arhosais am bythefnos ond ni chyrraeddodd unrhyw beth.

Fe alwes i linell Gymraeg y Swyddfa Basport - roedd rhaid gadael rhif a disgwyl am alwad nol. Fe ges i alwad nol ar ol rhai oriau, ac fe esboniais fy mod i am iddyn nhw anfon ffurflen Gymraeg ata i. Wythnos yn ddiweddarach fe dderbyniais ffurflen Saesneg drwy'r post.

Ffoniais i nol eto - ac er i fi bwysu'r botwm am wasanaeth Cymraeg fe atebodd merch fy ngalwad yn Saesneg. Esboniais yn amyneddgar ac yn hollol gwrtais fy mod i am gynnal fy sgwrs yn Gymraeg - yr ateb oedd, dan led-chwerthin, "I don't speak Welsh but I can help you." Roedd ei hagwedd yn warthus, ac ar ol i fi ofyn os oedd modd iddi fy nhrosglwyddo at rhwyun oedd yn medru'r Gymraeg, dwedodd "Oh no - you'll have to phone back - better luck next time!"

Dwi wedi gwneud cwyn gan fod fy mhrofiad yn dangos yn glir nad yw'r gwasanaeth a gynigir yn annog pobl i ddefnyddio ffurflenni Cymraeg.

Ar ben hyn - y tro diwetha y bues i'n delio da'r Swyddfa Basport - nol yn 2004 - ces i'r un fath o broblem gyda rhywun yn ateb e bost Cymraeg gyda'r geiriau "Don'r understand Welsh - please translate." Ces i ymddiheuriad swyddogol 'da nhw bryd hynny - ond mae'n amlwg bod dim wedi gwella mewn 5 mlynedd.

Sioned Williams

ATODIAD 14

Enghraifft ddiweddar - Fy mab, Robin, wedi cael cais am fynychu cyfweiliad yn Wrecsam yn dilyn gwneud cais am basport. Gofynnodd am gyfweiliad Cymraeg. Newidiwyd y dyddiad deirgwaith oherwydd problemau cael cyfieithydd. Cyrhaeddodd Wrecsam (o Gaernarfon - wedi gorfod cael amser rhydd o'r gwaith!) erbyn 10 y bore i gael gwybod na allai'r cyfieithydd fod yn bresennol tan 3 p.m.Eglurodd na allai aros hyd 3. Cafodd ddewis - dychwelyd ar ddiwrnod arall, neu gael cyfweiliad Saesneg. Oherwydd amgylchiadau, dewisodd gyfweiliad Saesneg.Gwnaeth y ddynes oedd yn cyfweild sylw fod ei Saesneg yn ardderchog (gan grymu nad oedd angen cyfieithydd arno). Anfonwyd cwyn swyddogol gennym i'r gwasanaeth. Cafodd mab i gymydog i ni hefyd brofiad tebyg wrth wneud cais am basport.

Nest Tudur Efans

ATODIAD 15

Garej texaco yng Nghaerdydd yn gwrthod siec Cymraeg a fferyllfa yn Nhreganna yr un fath.

Hysbysebion am swyddi Addysg gan Gyngor Penybont yn uniaith Saesneg.

Llenyddiaeth i staff Rhondda Cynon Taf yn uniaith Saesneg. Arfer bod yn yn ddwyieithog pan roedd Plaid Cymru mewn grym yno.

Colin Pari

ATODIAD 16

Bu'n rhaid imi adnewyddu fy mhasbort y llynedd. Er bod gwefan y Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau ar gael yn Gymraeg <http://www.ips.gov.uk/passport/welsh/apply-renewing.asp> dyw hi ddim yn bosibl wneud cais am adnewyddu pasbort ar lein yn Gymraeg – dim ond yn Saesneg mae'r ffurflen ar gael. Allaf i ddim defnyddio fy ngrym fel 'defnyddiwr' a siopa o gwmpas am wasanaeth Cymraeg achos dim ond drwy'r Gwasanaeth hwn y caf i wneud cais. Ar ben hynny, mae'r Gwasanaeth yn esbonio y cewch eich pasbort yn gynt drwy ddefnyddio gwasanaeth 'Anfon a Gwirio' (check and send) Swyddfa'r Post, ond dim ond yn Saesneg mae'r gwasanaeth hwn ar gael. Dim ond drwy'r Saesneg mae'r gwasanaeth gwell ar gael.

Richard

ATODIAD 17

Mae Abertyleri yn nhref wasgarog o siaradwyr y Gymraeg. Oes, mae gennym ychydig o arwyddion, ond dim gwasanaethau yn y prif siopau ar ein "Stryd Fawr" o gwbl. Mae Tesco yn eithaf da, ond does dim siaradwyr y Gymraeg ynddi, felly dwi'n defnyddio'r hunanwasanaeth i gael y ddewis o'r Gymraeg.

Pryd gwasanaethais bobl trwy'r Gymraeg yn Woolies, mi ddywedont sut fath o bleser y roedd i gael gwasanaethu yn Gymraeg, a roeddwn yn fodlon i'w gynnig iddynt hefyd. Pan roeddwn yn gweithio yn Woolies, gofynnais i fy mos os oedd hawl gen i rhoi taflen i fy ny wrth imi weithio yno (un o'r Bwrdd, a roedd yn deud "Defnyddia dy Gymraeg yma"), ond dywedodd fy mos NA.

Hoffwn i weld fwy o'r Gymraeg yn cael ei siarad yn yr ardal hon, hefyd mor bell â Blaenau Gwent ei hun.

Glenn Wall

ATODIAD 18

Cefais achos yn ddiweddar iawn.

Bu fy Nhad farw ddechrau mis Chwefror ac mae angen i ni fel teulu chwilio am brofiant. Rydw i'n byw ym Môn ac felly y swyddfa agosaf yw Bangor. Roedd y person yno yn gwbl broffesiynol a chlên iawn, ond doedd o ddim yn siarad Cymraeg. Ar adegau fel hyn, pan fod teulu mewn galar ar ôl colli rhywun annwyl, credaf ei bod yn bwysig iawn fod popeth posibl yn cael ei wneud iddynt deimlo mor gartrefol â phosibl yn eu mamiaith mewn maes sy'n amlwg yn ddiethr iddynt.

Cefais y ffurflenni profiant drwy'r post, ac roeddent yn Gymraeg. Mae'n rhaid hefyd llenwi ffurflenni datganiad treth ar gyfer y sawl fu farw - IHT205 - ac anffodus nid oedd copi Cymraeg o hon.

Pan fu farw fy Nhad, ysgrifennais yn Gymraeg ar unwaith at y Gwasanaeth Pensiwn yn Abertawe i roi gwybod am ei farwolaeth, gan ofyn iddynt gydnabod fy llythyr. Rydw i'n dal i ddisgwyl ateb...

Bethan Wyn Jones

ATODIAD 19

Mae angen cyngor arna'i, heddiw dywedodd fy rheolwr (sydd ddim yn siarad Cymraeg) y fod hi ddim yn hoffi fi yn siarad Cymraeg oherwydd mae hi methu ddeall beth rwy'n sgwrsio efo (Roeddwn i sgwrsio i cwsmer dros y ffon!)

Rwy'n gweithio mewn swyddfa o dim ond tri aelod o staff ac yn anffodus rydw i ddim cael llawer o cyfle i siarad fy laith heb law i un person (yr oeddwn i sgwrsio heddiw)

Rwy'n siarad efo'r person hyn oleua unwaith y dydd - beth dylwn i wneud os mae hi'n atal fi i siarad Saesneg! Os hawliau gyda fi?

Heblaw - Swyddfa fach rwy'n gweithio mewn, nid cwmni fawr rhyngwladol.

ENW YN GYFRINACHOL

ATODIAD 20

Dim, Cymraeg mewn archfarchnad newydd sbon yn Llangefni

Mae Iceland yn agor siop newydd Llangefni. Does na ddim un gair o Gymraeg ar unrhyw arwydd neu hysbys yno!

Dwi newydd pigo allan amser cinio yma a ges i gyfle i gael gair gydag un o'r rheolwyr - wnaeth gadarnhau doedd dim bwriad defnyddio dim Cymraeg ar arwyddion yn y siop.

Mae pencadlys cwmni Iceland yn Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint.. dwi wedi eu ffonio i gwyno a phwyntio allan bod cwmnïau o bell tu hwnt i Gymru yn defnyddio'r Gymraeg a does dim esgus iddyn nhw ddim. Hefyd mae eu siop newydd ar safle yr hen CoOp ac roedd llwyth o Gymraeg i'w gweld yno. Ges i gwrandawriad cwrtais ond dim ymateb arall.

Huw Jones

ATODIAD 21

<http://www.denbighshirefreepress.co.uk/news?articleid=2881608>

New concerns over the survival of Welsh in Dinbych

Published Date:

17 May 2007

By [Adam Johnson](#)

CONCERN is growing over the survival of the Welsh language in a Vale of Clwyd town.

Denbigh Town Council tabled an urgent discussion over the future of Welsh culture this week.

The move comes after concerns over a fall in Welsh taught at Denbigh High School and an incident alleged to involve a town centre pub.

The council discussed the incident which is alleged to involve two Welsh speakers being ejected from a Denbigh public house by the landlord for speaking the Welsh language on the premises.

The pair were believed to be warned to stop speaking their first language or be removed from the premises.

"A licensed premises in Denbigh last week ejected two people for speaking Welsh, I am sure a number of you know about that. My personal opinion is it's absolutely ludicrous," said Denbigh mayor Colin Hughes.

Cllr Ian Davies claimed the incident amounted to 'blatant racism' in the town.

He said: "This is 21st century Wales. When two men cannot go to a local pub and speak their own language over their favourite tippie then this amounts to blatant racism. Denbigh is still very much an historic Welsh town full of vibrant culture and heritage. Why should it be spoilt by a licensee intent on barring the Welsh language?"

Denbigh High School has come under the spotlight after former deputy head teacher Einir Owen claimed the education site was depriving pupils of the skills to live in a bi-lingual culture.

The school issued a statement revealing that the level of Welsh taught was greater than any other English medium school in the county, but there had been a slight reduction in the teaching of Welsh at Key Stage Four due to budget pressures.

Cllr Hughes called for every effort to be made to help youngsters learn Welsh to encourage them to stay and work in the area

"We do want to equip our children to stay around here, otherwise they will go over the border," he said.

But Cllr Emrys Williams called for the council not to be quick in criticising the school's reduction in Welsh teaching on the back of budget pressures.

He added: "Cllr Raymond Bartley and myself are governors of that school, there has been some changes in Welsh teaching. I can't condemn them but I think we should be saying we are a bit concerned as a town council."

ATODIAD 22

BBC CYMRU'R BYD Dydd Sul, 9 Tachwedd 2008

http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_7710000/newsid_7718400/7718412.stm

Tref am eithrio'r Gymraeg

Mae tref yn Sir Benfro eisiau peidio bod yn rhan o gynllun sy'n golygu bod rhaid iddyn nhw gyfieithu dogfennau i'r Gymraeg.

Dadl Cyngor Tref Aberdaugleddau ydi y bydd yn rhy gostus ac nad oes yna alw am hyn yn y dref.

O dan y gyfraith mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael yr un statws.

Dywedodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg bod y cynllun yn un "cadarnhaol, nid yn un oedd yn cosbi", ond yn y pendraw gallai achos fel yma gael ei drosglwyddo i Lywodraeth y Cynulliad.

Mae'r cynghorydd annibynnol Eric Harries a rhai cynghorwyr eraill yn Aberdaugleddau wedi pleidleisio o blaid peidio bod yn rhan o'r cynllun gan ddweud nad oes 'na ddigon o siaradwyr Cymraeg yn y dref i gyfiawnhau'r gost.

Dywedodd Mr Harries wrth raglen The Politics Show BBC Cymru bod cyfieithu cofnodion un cyfarfod o'r Saesneg i'r Gymraeg yn costio dros £400.

"Does dim ei angen a does neb ei eisiau," meddai.

Hawl o dan ddeddf

"Gallai'r arian gael ei ddefnyddio'n well ar wasanaethau eraill.

"Dwi'n gwbl gefnogol i wario arian ar wasanaethau sydd eu hangen ond ddim ar bethau nad oes eu hangen."

Ond dywedodd cynghorydd Plaid Cymru, Rhys Sinnett, bod nifer o siaradwyr Cymraeg yn Aberdaugleddau a bod ganddyn nhw hawl o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg i gael gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf os ydyn nhw'n dymuno hynny.

Ychwanegodd bod siaradwyr Cymraeg y dref wedi eu siomi gan bleidlais y cyngor gan waethygu'r rhwyg rhwng y siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg.

O dan y cynllun, sydd wedi cael ei wrthod gan y cyngor, fe fyddai dogfennau Cymraeg ar gael dim ond ar gais yn unig.

Ond yn ol rheolau'r Ddeddf Iaith does gan yr un cyngor yr hawl i eithrio o'r cynllun yn gyfan gwbl.

Mae wedi cymryd 15 mlynedd i awdurdodau wneud yn siwr bod deddf 1993 yn cael ei weithredu gan bob lefel o lywodraeth.

Hybu'r iaith

Erbyn Rhagfyr 3 mae angen i gyngor tref Aberdaugleddau lunio cynllun.

Dywedodd Meri Huws, cadeirydd Bwrdd yr Iaith, bod 'na le, mewn achosion eithafol, o drosglwyddo'r mater i'r gweinidog.

"Ond fe fyddem yn gobeithio osgoi hyn oherwydd hanfod y ddeddfwriaeth ydi hybu'r iaith, hybu defnydd yr iaith o fewn gwasanaethau ar draws Cymru.

"Dydi'r cynllun ddim yn un sy'n cosbi, yn hytrach mae'n gynllun cadarnhaol."

Dywedodd Richard Shepherd o Gymdeithas Cyngorau Lleol Sir Benfro, mae cyrff eraill ac eithrio Cyngor Tref Aberdaugleddau, yn gwrthod llunio cynlluniau.

Dwi'n ymwybodol o dri sydd wedi gwrthod yn gyfan gwbl ond dwi'n siwr bod 'na rai eraill, llai na 10, sy'n ystyried y peth.

"Maen nhw yn yr un ardal, ardal de Penfro. "

Ychwanegodd na fyddai'n awgrymu'r hyn mae'r cyngor yn Aberdaugleddau wedi ei wneud i gyrff eraill.

ATODIAD 23

La Voile, Y Felinheli

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=23351>

Mae gen i ofn bod yna enghraifft arall o agweddau coloneiddwyr lleol wedi dod i'r golwg. Ty bwyta'r La Voile yn Y Felinheli yw'r diweddaraf ar restr sydd i'w weld yn un diddiwedd ar hyn o bryd.....

Roedd merch ifanc o'r pentref yn gweini ar un o'r byrddau nos Wener ac yn cynnal sgwrs fer gyda rhai o'r gwsteion, pobl eraill o'r pentref, a hynny yn ddigon naturiol yn y Gymraeg. Daeth y perchennog ati a dweud na ddylai siarad Cymraeg o'i blaen hi, y perchennog, gan fod hynny'n anfoesgar. Dywedodd o hynny ymlaen, roedd hi'n iawn i gwsmeriaid siarad hefo hi yn Gymraeg, ond roedd rhaid iddi eu hateb yn Saesneg!

Mae'r ferch ifanc, chwarae teg iddi, wedi penderfynu nad ydi hi'n fodlon gweithio o dan amodau felly, ac wedi dweud wrth y perchennog na fydd hi'n dychwelyd i'w gwaith.

Roedd Mam y ferch ifanc yn gandryll pan glywodd am hyn ac fe ffoniodd y perchennog, gan ddisgwyl y byddai honno efallai yn syrthio ar ei bai ac yn dweud bod cam-ddealltwriaeth wedi digwydd. Ond na dim o gwbl. Roedd hi'n gwbl ddiedifar, gan ddweud pethau fel "*It is the standard practice in this area that English should be the language of business*", a "*It is just rude to speak Welsh in front of someone who does not understand the language*".

Mae rywun jest yn gegrth yn wyneb y ffasiwn haerllugrwydd, anwybodaeth a pharanoia coloneiddiol. Mae'r wraig yma wedi dibynnu'n helaeth ar gefnogaeth Cymry lleol ers blynnyddoedd, gan gynnwys fi fy hun a mhartner o ran hynny, ac eto mae'n gallu ein trin ni fel baw isa'r doman.

Rwan- mae'n bosib bod llawer ohonom wedi bod yn twyllo'n hunain efo mater Thomas Cook gan feddwl y byddai'r mater hwnnw yn fodd o newid agweddau a newid sefyllfaoedd fel hyn. Yn anffodus, dwi'n meddwl ei bod hi'r un mor debyg bod esiampl Thomas Cook wedi cadarnhau ac atgyfnerthu agweddau gwrth-Gymraeg yng Ngwynedd a mannau eraill. Mae'n drawiadol iawn bod perchennog La Voile wedi defnyddio'r un geiriau a ddefnyddiwyd gan Thomas Cook i bob pwrpas. Dwi wedi pasio'r stori ymlaen i Golwg ac mae'n siwr y bydd mwy o gyhoeddusrwydd i'r stori hon dros y dyddiau nesaf.

ATODIAD 24

Iaith: 'Y ffordd ymlaen'

http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_3580000/newsid_3586000/3586089.stm

Mae ffrae wedi codi oherwydd bod Llywodraeth y Cynulliad yn dweud nad oes digon o le ar ffordd i arwyddion Cymraeg.

Y tafarnwr a'r "plisman iaith" Iestyn Evans sy wedi canfod yr arwyddion uniaith Saesneg yn Aberystwyth, ar Rodfa'r Gogledd a Ffordd Alexandra.

Y cynulliad sy'n gyfrifol am yr A487 ac yn dadlau nad oes digon o le.

Mae Cyngor Ceredigion wedi ymddiheuro ac wedi addo datrys y broblem.

Dywedodd Mr Evans, 33 oed, tafarnwr Yr Hen Lew Du, fod hyn ychydig yn hwyr.

Statws cyfartal

"Roeddwn i'n meddwl mod i'n mynd nôl i 1969 pan deithies i ar hyd Rhodfa'r Gogledd y dydd o'r blaen.

"Brwydrodd pobol ymladd yn galed i sicrhau bod y Gymraeg yn cael yr un statws â'r Saesneg."

Gofynnodd beth oedd pwrpas cael y cynulliad os na allai sicrhau cydraddoldeb i'r iaith.

"Dwi'n hollol anfodlon am hyn gan ei bod yn amlwg bod digon o le ar y ffordd i arwyddion dwyieithog."

Y polisi oedd gosod arwyddion ffordd yn Gymraeg a Saesneg lle bo hynny'n bosib, meddai llefarydd ar ran y cynulliad.

"Y tro hwn mae'r lle gwag ar gael ar yr A487 yn gyfyng.

"Penderfynwyd mabwysiadu cynllun mai dim ond yn Saesneg y byddai'r arwyddion yn cael eu rhoi."

Dywedodd llefarydd ar ran y cyngor eu bod yn gwybod am y broblem.

"Mae hwn wedi ei nodi a chontractwyr wedi cael cais i ddod yn ôl a gorffen y gwaith yn Gymraeg ar Ffordd Alexandra.

"Mae ymchwiliad ar y gweill i ganfod beth ddigwyddodd ar Rodfa'r Gogledd.

"Rydym yn gobeithio y bydd arwyddion Cymraeg yno yn fuan."

Dywedodd fod y cyngor yn ymddiheuro am unrhyw anghyfleuster a dryswch.

ATODIAD 25

Y Welsh Not yn ôl ym Mangor!

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=23025>

Mae Thomas Cook ym Mangor wedi gwahardd ei staff Cymraeg rhag siarad â'i gilydd am y gwaith yn Gymraeg.

"Thomas Cook requests that all staff speak English when discussing work-related matters in the work place. This ensures clear communication at all times and is respectful to team members who do not speak other languages. Thomas Cook employs staff from many cultural backgrounds, therefore the company appreciates its staff may want to talk to colleagues in other languages for anything that is non business-related."

ATODIAD 26

Dolenni amrywiol at drafodaethau ar y we.

Asda ger Rhiwbeina, Caerdydd

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=23268>

Y Rhestyr Ddu - Lle gewch chi ddim siarad Cymraeg

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=23269>

Cardiff International Airport Ltd

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=23117>

Siarad Cymraeg yn ddrwg i'ch iechyd (yn ôl Undeb

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=22712>

DIM CYMRAEG yn y JobCenter

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=22047>

Pwyleg cyn y Gymraeg

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=21946>

DVLA Trwyddedu Cerbyd Ar-lein

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=21636>

TalkTalk

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=19027>

Llinell Gymraeg y trennau wedi diflannu ?

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=8703>

Banciau Cymraeg...

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=15004>

Ceredigion yn methu fforddio'r Gymraeg

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=20901>

Agwedd y Gwasanaeth Pensiwn tuag at y Gymraeg

<http://maes-e.com/viewtopic.php?f=3&t=20742>

ATODIAD 27

12/3/2009 – Western Mail

Sir,

CBI Cymru director David Rosser claims there is little or no demand for Welsh in business and adds "we desperately need to get people who can speak Welsh to use it" (Western Mail March 11th).

Well, here's an example. I called at my local post office for DVLA form D1 to replace my tattered old paper driving licence with a shiny new plastic one. Although they had loads of these forms in stock not one was in Welsh.

I must point out that this was not their fault; that's what the DVLA delivered to them. But this is not anglicised Monmouthshire or Radnorshire, this is Sir Gaerfyrddin where most people speak and use Welsh in their daily lives. I applied for a Welsh version on the DVLA website over a week ago and it still hasn't arrived. Perhaps it never will.

It took me over 6 months to get bills in Welsh from my telephone company and almost every time I call a government or council department I get, after the obligatory 'bore da/prynhawn da' sorry, you'll have to speak English or could you phone back later?

It's not much better on the dedicated Welsh language lines which are not always staffed.

And this is just the public sector. When it comes to the private sector forget it!

With all the delays, obstacles and inconveniences encountered by those trying to utilise their language it is little wonder that so many Welsh-speakers don't bother. Furthermore, people become too embarrassed and frustrated to ask for Welsh-language services because they are unjustly left feeling that it is they who are being awkward and uncooperative, not the people behind the counter or at the other end of the phone.

Consider that Mr.Rosser.

Rhobert ap Steffan.

Moel Siabod,

Llangadog.

SA19 9AF

ATODIAD 28

LLYTHYR AT Y GWEINIDOG TREFTADAETH – ALUNFFRED JONES AC 09.10.08

Annwyl Mr Jones

Derbyniais ffurflen RD312/CA3480 gan Swyddfa Gyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid y Wlad heddiw. Ffurflen yw hon yn gofyn am fanylion gennyf i er mwyn i'm mab sydd bron yn 16 oed gan Cerdyn Rhif Yswiriant Gwladol.

Mae'r ffurflen yn uniaith Saesneg ac nid oes sôn arni bod ffurflen Gymraeg ar gael. Ffoniais swyddfa Cyllid y Wlad ym Mhorthmadog i holi am ffurflen Gymraeg. Trefnwyd i anfon un ataf. Yna, dywedodd y swyddog mai Cerdyn Rhif Yswiriant Gwladol Saesneg y byddai'r mab yn ei dderbyn a, phe dymunwn gael cerdyn Cymraeg, y byddai angen i ni anfon yr un Saesneg yn ôl i'r swyddfa ym Mhorthmadog a gofyn am un Cymraeg yn ei le.

Pa syndod bod cyrff fel hyn yn dweud nad oes galw am eu gwasanaethau Cymraeg?!!

Rwy'n cofio cael yr un profiad gyda fy mab hynaf dair blynedd yn ôl, felly nid damwain yw hyn. Dyma ddyfyniad o Gynllun Iaith Cyllid y Wlad

"5.4 Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiol

5.4.1 Ein bwriad yw sicrhau bod pob ffurflen a deunydd esboniadol sy'n cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru yn hollol ddwyieithog. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd yn yr un ddogfen."

Dymuniadau gorau yn eich swydd newydd

Siân Roberts

LLYTHYR AT EMMA SMITH, BWRDD YR IAITH 26.01.09

Annwyl Emma Smith

Cefais y neges isod gennych ar 5 Rhagfyr ond ni atebais ar y pryd gan nad oedd y mater wedi'i setlo.

Dyma'r sefyllfa erbyn hyn:

8 Hydref:

Derbyniais ffurflen RD312/CA3480 gan Swyddfa Gyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid y Wlad. Ffurflen yw hon yn gofyn am fanylion gennyf i er mwyn i'm mab oedd bron yn 16 oed gael Cerdyn Rhif Yswiriant Gwladol. Gan ei bod yn uniaith Saesneg, ffoniais Swyddfa Porthmadog i ofyn am ffurflen Gymraeg.

Trefnwyd i anfon un ataf a dywedwyd, y byddai'r Cerdyn, pan ddeuai, yn Saesneg ac y byddai'n rhaid i mi ei anfon yn ôl er mwyn cael un Cymraeg.

Ysgrifennais atoch chi a Chyllid y Wlad i gwyno ei bod yn drafferthus cael Cerdyn Yswiriant Gwladol Cymraeg.

17 Tachwedd:

Gan nad oedd y ffurflen Gymraeg wedi cyrraedd dros fis yn ddiweddarach, ffoniais Swyddfa Porthmadog eto a threfnwyd i anfon y ffurflen ataf.

21 Tachwedd:

Cyrhaeddodd y ffurflen Gymraeg. Llenwais hi a'i phostio.

Cefais ateb oddi wrth Gyllid y Wlad yn ymddiheuro am anfon gohebiaeth Saesneg gan fy mod eisoes wedi gofyn am dderbyn gohebiaeth Gymraeg ac yn dweud na fyddai angen i ni dderbyn cerdyn Saesneg a'i ddychwelyd er mwyn cael cerdyn Cymraeg. Byddent yn anfon cerdyn Cymraeg atom yn syth.

26 Ionawr (heddiw):

Gan fod y cerdyn yn dal heb gyrraedd, ffoniais swyddfa Porthmadog. Cefais wybod bod y cerdyn (Saesneg) ganddynt yno ac y gallent bostio hwnnw ataf neu drefnu i ni gael un Cymraeg o fewn tua thair wythnos.

Wir - pa syndod nad yw pobl yn trafferthu gofyn am wasanaethau Cymraeg?!

Diolch am roi sylw i'r mater.
Siân Roberts

ATODIAD 29

Bu raid i mi alw yn siop newydd marks and Spencer yng Nghroes cwrlwys, ger Caerdydd ddoe. O leiaf mae'n siop newydd yn dilyn yr ail wampio llwyr a fu ar yr adeilad ryw dro yn ystod ail hanner 2008. Bryd hynny roedd yr arwyddion yn ddwyieithog.

Ond yn y siop 'newydd' yma mae pob un rwydd yn uniaith Saesneg. Mae hi'n union fel cerdded i mewn i siop yn Lloegr. Diddorol fyddai gwybod pam fod y cwmni yma yn brasgamu at yn ol efo'u polisi.

Gyrrais air at Fwrdd yr Iaith hefyd a bwriadaf gysylltu efo'r siop a'r cwmni yn nes ymlaen heddiw.

Eryl Wyn Rowlands

ATODIAD 30

Wnaiff fawr neb rwan ddweud No Welsh, ond mae ffyrdd mwy subtle o wneud hynny e.e - gofyn mewn cyfarfod - Ydych chi wirioneddol eisiau cyfieithiad achos dim ond y chi sydd yn mynd i siarad Cymraeg yma? Dywedodd aelod oedd yn cynrychioli y cyhoedd ar Fwrdd Heddlu Gogledd Cymru hyn wrthof yn ddiweddar, ac roedd yn mynegi pryderon gwirioneddol a fyddai y Pennaeth nesaf yn siarad Cymraeg.

Sawl gwaith dwi'n mynd i Swyddfa'r Post, a does dim ffurflenni Cymraeg ar gael. Unwaith eto, wnawn nhw ddim gwahardd y Gymraeg, jest ei gwneud hi yn anodd i'w chanfod.

Ar y lefel gyhoeddus, rydym wedi bod yn ceisio gohebu yn Gymraeg a Swyddfa Cyllid a Thollau ers i'n plentyn gael ei eni (6 mlynedd yn ol) ynglyn a credyd treth teulu. Ceir llythyr safonol bob blwyddyn (yr un geiriad) yn dweud nad ydynt eto wedi llwyddo i ganfod system all ymdopi efo gohebiaeth Gymraeg.

Er fod HSBC i fod yn reit dda, dwi'n anfon gohebiaeth yn gyson yn ol yn gofyn am gylchlythyrau yn Gymraeg.

Ymaelodais efo CADW yn ddiweddar, a mynd i Gastell Cricieth i weld Owain Glyndwr. Roedd yr actor hwnnw a phob aelod arall yn uniaith Saesneg - aelodau o Harlech Mediaeval Society - i gyd yn cael eu talu yn dda gan arian y Cynulliad bob haf. Sut mae egluro i blant fod Glyndwr yn siarad Saesneg? Rhoddwyd y fersiwn Saesneg o'r ffilm ar Gerallt Gymro (!) ymlaen ...'so that every one can understand'.

Mae diffygion difrifol ym maes iechyd meddwl - hyd yn oed yng Ngwynedd. Os ydych chi'n glaf yn ward iechyd meddwl ym Mangor, does dim modd cael gwasanaeth Cymraeg o gwbl gan feddyg sy'n seiciatrydd. Siaradais am hyn yn ddiweddar mewn cynhadledd o secatryddion ac roedd pobl yng Nghlwyd yn dychryn - meddwl fod y sefyllfa gymaint gwell yng Ngwynedd.

Bu fy mam yn glaf yn Ysbyty Gwynedd am 3 wythnos cyn y Nadolig, a chafodd hi ddim gwasanaeth gan yr un meddyg Cymraeg yn ystod ei arhosiad. Sgwennais at yr Awdurdod a chael y ffigyrau swyddogol ddoe

53% o nyrsus Ysbyty Gwynedd yn ddwyieithog. 1% o feddygon Ymddiriedolaeth Gogledd Orllewin Cymru sy'n ddwyieithog. - er eu bod yn arddangos tystysgrifau Bwrdd yr Iaith yn falch ar y muriau.

Bum am brawf sgrinio bron y mis dwythfa, a methu cael unrhyw wasanaeth Cymraeg. Pan gwynais, dywedwyd fod nyrsus Cymraeg efo cymwysterau yn brin. Oni bai eich bod yn gwneud cwyn ffurfiol, daiff y peth ddim ymhellach.

Angharad Tomos

ATODIAD 31

Fel un sydd weid symyd ty gymaint o weithie yn ddiweddar ydi o ran y cwmniau cyfleusterau sydd i fod efo polisi dwyieithog fel Dwr Cymru a SWALEC.

Pan ti'n symyd mewn i dy bydd y llythyr cynta sy'n dod yn uniaith Saesneg a does dim manylion am linell ffon Gymraeg ac ati arnyn nhw o gwbl. Byddai rhaid i rywun sydd am wasanaeth dwy-ieithog felly ffonio'r llinell Saesneg a gofyn am un, os oes un ar gael. Byddai trin y ddwy iaith yn gyfartal yn golygu fod gwasnaeth

Cymraeg yr un mor hawdd ei dderbyn a gwasnaeth Saesneg, o'r chcywn cyntaf.

Hefyd, pan yn trio setio fyny Broadband yn y ty, ges i fy annog gan ffrind sy'n neud PR i BT i ddefnyddio nhw gan fod ganddyn nhw wasanaeth dwy-ieithog. Felly es i chwilio ar y wefan am y rhif Cymraeg, ond o'i ffonio canfod na fedren nhw wneud dim ond fy mhasio i mlaen i'r bobl oedd yn delio efo Broadband - yn Saesneg. Ffars ydi polisi Cymraeg o'r fath.

Hefyd, mae llinell Gymraeg National Savings and Investments (sydd yn gorff cyhoeddus ac yn dod o dan Deddf 1993) yn mynd drwodd i Trosol, ble mae gan y staff jest rhestr o leiniau wedi eu sgrïptio a dim potensial o gwbl i roi cyngor ariannol etc i neb.

AM AROS YN DDI-ENW

ATODIAD 32

Tystiolaeth gan ŵr wnaeth ffonio swyddfa Cymdeithas yr Iaith. Eisiau aros yn ddi-enw. Roedd wedi hebrwng ffrind, a oedd yn dioddef o asma , i Ysbyty Llandochoau. Siaradai'r ddau Gymraeg efo'i gilydd. Am wneud hyn cawsant gerydd gan Sister Julia Evans oedd yn gofalu amdanynt. Ei geiriau oedd:

"If a member of my Phillipino staff spoke their language I would tell them off because of their ignorance and I dont expect the same ignorance from you."

AM AROS YN DDI-ENW

ATODIAD 33

Dydd lau diwethaf fe agorais gyfri banc gyda Lloyds yn stryd Fawr Bangor. Ticiais y bocs 'Cymraeg' ar gyfer 'preferred language'. Ddydd Sadwrn cefais lythyr gan Lloyd's ynglyn a'r trefniadau gor-ddrafft ac yn y cytundeb roedd y frawddeg 'you agree that we communicate with you in English'.

Einir Young

ATODIAD 34

Mae gen i enghraifft o diffyg parch at yr iaith Gymraeg. Mewn archfarnad lleol mae ganddynt til lle rwy ti yn gwneud popeth dy hyn hefo'r optiwn i'w wneud yn y Gymraeg. Nes i pwysu y botwm Cymraeg er mwyn cael gwasanaeth cymraeg. Fel oeddwn yn sganio yr eitemau fy hyn fe oedd problem hefo'r till a dyma aelod o staff yr archfarnad yn dod ata i. Mi ofynnodd i mi yn Saesneg beth oedd yn bod a dyma finnau yn ateb bod neges ar y sgrin yn esbonio be oedd. Yr ateb gefais ganddo oedd " Oh God, you've pushed the bloody welsh button! I can't help you cos I don't speak bloody welsh"! Mi aeth yn goblyn o ffrae rhwng fi ar dyn ma, pan ddaeth y rheolwr ata i a gofyn be oedd, nes i esbonio beth oedd wedi digwydd a dweud wrthynt bod chwara teg iddynt rhoi yr optiwn i mi wneud fy siopa yn Gymraeg ond be di'r point os nad yw y person syn' rheoli y tilliau yma ar y dwirnod yn dallt dim ar y iaith.

Mrs M Nia Williams.

ATODIAD 35

I'm afraid my Welsh isn't yet good enough to write to you, but I am the father of two Welsh-speaking children, and my Welsh wife suggested you might be interested in this.

The attached letter tells you the basics of the incident, but I'd like to make a more general point: I am English and I live in Caernarfon, and I can't see why shops that make so much money out of us can;t teach their staff a basic amount of checkout Welsh. I've learned enough Welsh to get by, and I don;t see why others can't. I think my Welsh-speaking friends and neighbours should have a right to expect that, and I certainly believe my children should be able to use their own language in their home town. In fact I'm surprised there's any debate about it at all - as a Londoner I've always taken for granted that anyone can live anywhere they want,

provided they learn enough of the language to interact with their neighbours and respect the local culture. I don't see why those rules, constantly applied to English, should not be applied to Welsh in Welsh-speaking areas of Wales.

Here is the letter I sent to Tesco in December.

Patrick McGuinness

Dear Tesco,

I shopped this morning at your Caernarfon store with my 2 year old daughter.. It is one of my regular shopping trips, and I am a regular and loyal customer. This morning, at around 11.20, I went to the till to pay, and said something in Welsh to the lady at the till to the effect that I had five cartons of drink and she could scan one five times and save herself doing all five.

Her response was along the lines of 'eh'? and then 'what'? as if I had some sort of speech impediment or had not made myself clear. When I repeated my statement, she replied simply 'I'm English'. This was, I imagine, her way of telling me she didn't speak Welsh, but it struck me as rather rude and inappropriate – after all, what should being English mean one doesn't speak a modicum of Welsh to one's customers? And why not just say 'I'm sorry, I don't speak Welsh'.

What made me most depressed about this exchange is that I am myself English, and come from London, and have lived in Caernarfon for three years. I have learned some Welsh, and I am appalled at the thought that some of my fellow-English use their Englishness as an excuse to stonewall Welsh in such nationalistic terms. Basically, it gives us a bad name. When I explained to her politely that I too was English and came from London, you could have cut the atmosphere with a knife. Maybe I was the wrong kind of English person, the Welsh-leaning kind perhaps?

Although I believe that people who live and work in Welsh-speaking areas should learn a respectful amount of the language, I recognise that this isn't always possible, or indeed that for some it simply doesn't work out. But it should remain desirable, and it should be expected as a right by those who wish to use their language. But to simply say 'I'm English' makes a gross assumption that other English people (like myself and my daughter) are somehow disqualified from Welsh, or unwilling to learn it. Which we are not. As for making noises like 'eh?' and shrugging as if one was confronted with some incomprehensible animal noises, that's just rude.

I think people who do that should re-examine their attitudes, and those who employ them should re-examine their policies. I have lived in a Welsh-speaking area now for three years and this is the first time I (or my children) have ever encountered any sort of linguistic or nationalistic tension. It's ironic that it should have come from one of my fellow-English in the context of my speaking a few words of my limited Welsh at a checkout till!

I feel sufficiently strongly about this to reconsider my shopping habits, both instore and online, and to tell my Welsh and English friends about this experience. I like Tesco, and I especially like that shop, where all the staff, whichever language they speak, are unfailingly helpful and pleasant, but there's a limit to how much of this sort of thing I'll put up with.

Dr Patrick McGuinness

ATODIAD 36

Dwi'n gweithio i gwmni bach sy'n gwneud pob dim yn y Gymraeg, felly mae'r holl waith papur yn Gymraeg, gan gynnwys Cynllun Dirpwyath Ariannol ar bwy sy'n cael arwyddo sieciau ayb. Dan ni'n bancio gyda'r HSBC yn hanesyddol, oherwydd bod ganddyn bolisi dwyieithrwydd. Wnaethon ni gyflwyno mandad newydd iddynt, gyda'r cynllun ar gyfer y llyfr sieciau. Oherwydd nad oedd yr unig siaradwr Cymraeg yn y cangen tan yr wythnos nesaf, wnaethon nhw rhoi'r gwaith papur i un ochr, gan achosi problemau mawr i ni wrth trio talu staff a darparwyr. Dan ni wedi gorfod cyflwyno gwaith papur yn ddwyieithog ers hynny.

Cwyn mwy benodol am yr HSBC yn Wrecsam, roedd un o'r peiriannau pres dim yn gweithio'n iawn, am fod o ddim yn cynnig dewis Cymraeg. Es i fewn i ddeud wrth y person ar dyletswydd, a phan es i nol rhyw wythnos wedyn, oedd o dal ddim yn gweithio. Es i mewn eto i ddweud, a dweudodd y ddynes ar

ddyletswydd nad oedd dim byd yn bod ar y peiriant, a bydd rhaid i fi ddefnyddio un o'r lleill os oedd eisiau dewis Cymraeg.

DVLA - adnewyddais i fy nhrwydded yrru yn ddiweddar, ac er i mi lenwi'r gwaith papur Cymraeg, wnaethon nhw yrru trwydded uniaith Saesneg ataf. Dwi 'di sgwennu llythyr atynt am hyn, wna i yrru copi o adre heno 'ma.

Yn y llythyr cafodd John yn ddiweddar gan Lesley Griffiths am yr LCO, roedd y datganiad yn dweud fod peiriannau hunan wasanaeth Tesco yn ddwyieithog yn bob man. Dydi hyn ddim yn wir, mae'r rhai yn yr Wyddgrug yn un iaith Saesneg.

Ellie Pritchard

ATODIAD 37

EBOST AT CROESO CYMRU. Tachwedd2008

Hoffwn gwyno yn swyddogol am y ffaith nad oes posibil derbyn gwasanaeth Gymraeg ar wefan 'Croeso Cymru'. Dwi'n deall eich bod ar y foment yn ymchwilio i fewn i'r posibiliad o greu cynllun marchnata sydd yn targedu y Cymry yn benodol ac y byddwch mewn amser yn lansio gwefan o'r newydd yn ddwyieithog i'r perwyl yma. A fuasech gystal a danfon manylion ynghylch amserlen y cynllun arfaethedig yma os gwelwch yn dda.

Yn y cyfamser wrth gwrs, nid oes posibil i Gymry Cymraeg dderbyn unrhyw wybodaeth o'r wefan drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae hyn yn hollol annerbyniol. Gyda gwefan sydd mor bwysig ac sy'n gyfrifoldeb penodol i'r Gweinidog Treftadaeth, nid yw hyn yn argoeli'n dda i ddatblygu polisi dwyieithog mewn adrannau eraill.

Angharad Clwyd

ATODIAD 38

Cofrestru Priodasau Dwyieithog.

Does dim modd cofrestru priodas yn y Gymraeg, rhaid iddo fod yn Saesneg a Chymraeg. Dwi'n derbyn bod rhaid defnyddio'r ddwy iaith, ond pam mae rhaid gosod y Saesneg cyntaf? Baswn i am rhoi'r blaenoriaeth i'r Gymraeg.

John C davies.

ATODIAD 39

1 . Pan es at y deintydd y tro diwethaf, yn Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, gofynnwyd imi lofnodi ffurflenni cyn cael triniaeth . Gofynnais am rai Cymraeg neu ddwyieithog a dywedwyd wrthyf nad oes dim, eu bod wedi cael eraill yn holi ond nad ydynt i'w cael o gwbl . Tynnais sylw Bwrdd yr Iaith at hyn a dywedwyd y byddent yn ymchwilio, am fod ffurflenni i fod ar gael . Rwyf yn amau'n fawr, er hynny, a gaf un pan af at y deintydd eto .

2 . Arferwn brynu Bondiau Cynilo i Blant yn swyddfa'r post ond ers tro byd ni welais yr un ffurflen Gymraeg . I gael un Gymraeg, rhaid argraffu un eich hun o'r wefan .

3 . Yn diweddar, tynnodd darpar-ymchwilwraig fy sylw at natur uniaith Saesneg y rhannau o wefan Prifysgol Aberystwyth sy'n ymdrin â graddedigion . Mae polisi iaith y Brifysgol fel pe bai'n gorffen gyda'r radd, os yw'n cyrraedd mor bell â hynny .

Ambell beth sy'n dod i'r meddwl sydd yn y fan hon, wrth gwrs .

Rhisiart Hincks

ATODIAD 40

Dyma enghraifft o wasanaeth eilradd ac esboniad tila gan Archfarchnad Morrisons lle rwy'n gweithio. Yn ddiweddar, cafodd y siop ei aildrefnu (er mwyn gwneud mwy o le i nwyddau cartref a.y.b) Cafwyd prif arwyddion mewnol newydd sbon, ond roedd 5 gwall sillafu gwirion yn y Gymraeg. Wedi i nifer o gwsmeriaid gwyno am hyn, gofynnodd y Rheolwr i mi gywiro'r gwallau ar bapur. Gofynnais i'r Rheolwr pam fod yna gymaint o wallau Cymraeg, a'r ateb a gefais oedd fod Cyfieithwyr o Gaerdydd wedi gwneud y gwaith, a'r broblem yw fod geiriau'n cael eu sillafu'n wahanol ymhob rhan o Gymru, ac felly nid oes posib ei gael yn gywir beth bynnag! (Esgus gwael) Ac wrth gwrs aeth yn ei flaen i fychanu'r iaith gan honni mai dim ond 250,000 o siaradwyr Cymraeg sy'n bodoli, ac ei fod hi'n costio £60 i gywiro pob gwall ar arwydd. Mae'n amlwg fod yr arwyddion wedi cael eu hargraffu dros y ffin lle nad oes yna neb i'w prawfddarllen, ac mae'n debyg mai dyma un rheswm pam fod cwmnïau o'r fath yn cwyno am gostau arwyddion dwyieithog, costau cywiro ydynt!

EISIAU AROS YN DDI-ENW

ATODIAD 41

Banc Barclays, Kingsway, Abertawe- does byth taflenni-talu- mewn ar y cownter ac ar ol gofyn, fel arfer nid ydynt gallu ffindo un. Un tro dwedodd merch wrthyf y gallai pob grwp ethnig ofyn am ieithoedd eu hunain a bydde hynny'n gofyn gormod. Felly roedd hi ddim am wneud eithriad o'r Gymraeg!
hwyl

Mari Evans

ATODIAD 42

Fe wnes i gais am le yn Aberystwyth am y flwyddyn nesaf ymhlith dewisiadau eraill. Anfonodd y Coleg - yn enw'r Prif swyddog Ricriwtio - bamffled uniaith Saesneg ataf yn fy annog i wneud Aber yn ddewis terfynol. Fe wnes i gwyno i'r Pennaeth 6ed Dosbarth yn Ysgol Dyffryn Teifi ac wrth y Coleg. Yn ôl y Brifysgol camgymeriad oedd hyn, a'u bod yn arfer anfon yn Gymraeg at bawb sy'n gofyn am ohebiaeth Gymraeg, ond pam fod rhaid optio i mewn i wasanaeth Cymraeg? Mae hyn yn dangos mai polisi cyffredinol Aberystwyth - yw mai Saesneg yw eu cyfrwng cyfathrebu diofyn, arferol a bod angen gwneud cais i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Yn ymarferol felly, y mae'r wybodaeth yn mynd allan yn uniaith Saesneg at y mwyafrif mawr o ddarpar-fyfyrwyr. Dylai'r holl ohebiaeth yma at ddarpar-fyfyrwyr tu allan i Gymru - heb son am y Cymry - fod yn ddwyieithog ac yn pwysleisio eu bod yn dod at wlad gyda diwylliant arbennig. Does dim rhyfedd fod cymaint o fyfyrwyr o Loegr yn cyrraedd Aber yn deall dim fod iaith gyfathrebu wahanol i'w heiddo nhw.

Ioan Teifi, Myfyriwr 6ed Dosbarth, Dyffryn Teifi

ATODIAD 43

Arolwg o Gwmnïau Preifat 'Mesur Iaith Newydd – A fyddwch chi'n gadael Cymru?' Chwefror 2009

Yn dilyn codi bwganod gan y rhengoedd gwrth-ddeddfwriaethu'n ieithyddol yng Nghymru, fe wnaeth Cymdeithas yr Iaith baratol arolwg syml i wrthbrofi'r sylwadau di-sail y bydd cwmnïau yn gadael Cymru os bod deddfwriaeth yn galw arnynt i sicrhau gwasanaethau cyflwan dwyieithog.

Ar y 5ed o Chwefror 2009, danfonodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn danfon y cwestiwn isod i'r cwmnïau canlynol: Tesco, Morrisons, Boots, Superdrug, Woolworths, WHSmith, Abbey, CO-OP Bank, Orange, Vodafone, O2, 3, T-mobile.

"A fyddwch chi'n dod a'ch busnes i ben yng Nghymru os bydd mesurau yn dilyn y GCD yn galw arnoch i ddarparu gwasanaethau dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) i gwsmeriaid yng Nghymru."

Dyma'r ymatebion a'i dderbyniwyd:

ORANGE – 12/2/09

"Orange has already made a number of provisions to include the Welsh language throughout all stores. We have also been in contact with the Welsh Language Board to discuss the best way of doing this."

"In Wales, all of our stores are being issued with permanent bilingual signage. We also ensure that all standard and legal leaflets in our Welsh stores are available in both English and Welsh. In addition, we have Welsh speaking advisors in a number of our stores who wear a Welsh flag on their badges to indicate to customers that they are able to speak Welsh."

TESCO – 10/2/09

We are committed to creating a bilingual environment for our customers where possible and continue to work with the Welsh Language Board to achieve this. We would not, however, comment on a hypothetical scenario.

ABBEY - 5/2/09

With regard to your question, the simple answer is no. For your info, at present, most branches in Wales have dual internal signage. Abbey is sensitive to local needs in this respect and when deciding the extent of bi-lingual signage required, liaises with local management to find the most appropriate mix of English and Welsh. Consequently, some branches have a bias towards signage in English, and some towards signage in Welsh.

Similarly, a number of branches employ staff for whom Welsh is their first language, and when conversing with customers or between themselves, they do so in their native language.

CO-OPERATIVE BANK 6/2/09

If the order, which if given will transfer the power to create Acts from London to the Welsh Assembly, is passed I can confirm that this shouldn't have an impact upon The Co-operative Bank operations in Wales as we already have in place within our branches a member of staff who is Welsh speaking and in addition we also ensure that all statements, product literature and supporting documentation are produced in both English and Welsh.

CO-OPERATIVE BANK - 6/2/09

"The Co-operative Financial Services is committed to maintaining the service we provide to our 6 million customers throughout the UK, via the different channels that we offer. Our Welsh branch network is an important part of our ability to do this and that we wait with interest to learn more about the Assembly's proposals and hope that they provide a realistic timescales for businesses to respond to any new requirements they may have."

SUPERDRUG 6/2/09

Can you clarify 'supply a bilingual service' would mean. As you know we have bilingual signage and Welsh speakers in store. Thanks

Telefonica/O2 – 6/2/09

"No, we are committed to providing a great experience to our Welsh customers. We're proud to be in Wales and already offer bilingual services where possible, but believe this should be undertaken on a voluntary rather than mandatory basis"

BOOTS – 9/2/09

"We do not intend to bring to an end any of our activities in Wales following the Welsh Language LCO, or the anticipated Measures following the LCO. This includes our bilingual activities in all our stores throughout Wales." Boots Spokesperson

T-MOBILE – 12/2/09

"In response to your question below, we will be happy to participate in discussions around the proposed LCO but this stage, given that we are at the very early stages of the process, we are not in a position to speculate on what the final measure will entail and how it might be implemented."

VODAFONE – 11/2/09

"We are aware of the legislative proposals which are intended to ensure organisations providing services to the public offer those services in Welsh as well as English. At this stage, the extent of the obligation and its full impact on our business is not fully understood and we look forward to discussing the detail of the legislation during the consultation period."

ATODIAD 44

Wedi ffonio CACC (Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru) yn ddiweddar). Doedd neb ar gael i drafod yn Gymraeg ond roedd modd i fi drafod yn Saesneg. Digwyddodd yr un peth pan ffoniais Cyd bwyllgor addysg Cymru. Ar ol y bore da cychwynnol, doedd dim modd parhau a'r sgwrs yn Gymraeg.

Dyw peiriannau twll yn y wal Tesco chwaith ddim yn cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg, er bod eu peiriannau talu yn y siop yn siarad Gymraeg!!

Rhian Ellis.

ATODIAD 45

Mae diffyg gohebiaeth Gymraeg, ayb gan Fanc Nat West

Does dim hawl cael gwybodaeth / biliau yn Gymraeg ar-lein gan BT. Y dewis ydi dal i'w cael ar bapur a **thalu £18 y flwyddyn yn fwy. Felly cosb ariannol am wasanaeth Gymraeg!**

Roeddwn yn mynychu cyfarfod **hyfforddi cenedlaethol** ar gyfer **aseswr Cynllun Ysgolion Iach Cymru** yr wythnos diwethaf ac ar ôl derbyn copi Saesneg o'r agenda o flaen llaw, gofynais am y fersiwn Gymraeg ond doedd dim argael!

Doedd dim gair o Gymraeg yn y cyfarfod, ble'r oedd dros hanner yr aseswyr yn siarad Cymraeg, a dim ond yn Saesneg yr oedd y ffurflen werthuso ar gael ar y diwedd.

Olwen Cottle

ATODIAD 46

Flwyddyn ddiwethaf, galwais i ym Mlaenau Ffestiniog ar fy ffordd i ymweld a rhywun. Wrth ddefnyddio'r peiriant arian parod HSBC yn y dref, ces i fy siomi'n arw gan nad oedd yn cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg.

Efo Barclays dwi'n bancio ac, yn fy mhrofiad i, y maent yn reit dda am ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Roeddwn yn disgwyl gwasanaeth tebyg gan HSBC, yn enwedig wrth feddwl fy mod i'n defnyddio'u peiriant nhw mewn un o ardaloedd Cymreicaf Cymru.

Geraint Llwyd Owens

ATODIAD 47

Rwyf i wedi cael profiad gwael yn Swyddfa'r Post Aberystwyth. Bum yn ciwio yno er mwyn prynu stampiau, ac wedi cyrraedd y ddesg a gofyn yn Gymraeg dywedodd y ferch y tu ôl i'r ddesg wrthof nad oedd yn medru'r Gymraeg. Gofynnais am siaradwr Cymraeg. Daeth y rheolwraig ataf. Dywedodd hi y gallwn ddod yn ôl am ddau o'r gloch ac y byddai rhywun a oedd yn medru siarad Cymraeg ar ddyletswydd bryd hynny. Roedd hi'n 10.30am ar y pryd. Dywedais wrthi nad oedd yn bosibl i mi aros a gadawais heb brynu stampiau. Ffoniais linell gwynion y Swyddfa Bost a siaradais â Chymro Cymraeg a oedd yn synnu nad oedd unrhyw un yn medru siarad Cymraeg yn y swyddfa bost yn Aberystwyth. Rhoddodd gyfeiriad yn yr Amwythig i mi wneud cwyn swyddogol. Cefais gydnabyddiaeth o dderbyn fy llythyr ac yna o fewn 10 diwrnod lythyr arall yn dweud dim ond eu bod yn gwneud eu gorau i sicrhau fod Cymry Cymraeg mewn swyddfeydd post mewn ardaloedd Cymraeg. Rhoddais eew'r Reolwraig drahaus gan ofyn sut y penodwyd rhywun heb unrhyw ymwybyddiaeth o'n hiaith a'n diwylliant yn rhywle fel Aberystwyth. Dim unrhyw ateb i hyn. Nid yw hyn yn ddigon da.

Cafodd fy ngŵr brofiad tebyg ychydig fisoedd ynghynt Gofyn am siaradwr Cymraeg ond neb ar gael.

Fel rhywun sydd wedi ei geni a'i magu yn Aberystwyth disgwyliaf gael gwasanaeth yn Gymraeg.

Delyth Davies

ATODIAD 48

Mae fy mhrofiadau yma yn Sir Benfro yn gwaethygu wrth i'r mewnlifiad gynyddu. Rwy'n 58 oed, yn gyfreithiwr (neu -wraig, yn hytrach) wedi ymdddeol. Treuliais tua 11 mlynedd yn Lloegr, gan gynnwys tair blynedd yn fyfyrwraig yn Rhydychen, a theimlaf yn atebol i sefyll yn hyderus, yn gadarn ac yn falch o'm Cymreictod. Bellach teimlaf fod rhaid bod yn amddiffynol, a hynny'n barhaus.

Wele enghreifftiau diweddar :

MAE DIFFYG PARCH AT Y GYMRAEG YN GYFLWR CYFFREDINOL YNG NGORLLEWIN CYMRU.

Cam-ynganu enwau Cymraeg pobl a lleoedd. Mae hyn yn rhemp. Pan fyddaf yn awgrymu'r ynganiad cywir caf yr ymatebion :

- i) "Oh, but I'm English"
- ii) "I expect that I'll have to pronounce that now (gyda gwg neu grechwen dirmygus)"
- iii) "I can speak French" Pan fyddaf yn awgrymu bod yr ateb olaf yn hurt gan ein bod yng Nghymru, cefais droeon rhyw lol nad oedd y gallu i siarad Cymraeg yn rhugl yn rhan o ddisgrifiad swydd.

Cefais y tri ateb uchod mewn sefyllfaoedd gwahanol dros gyfnod o dri mis y llynedd yn fy meddygfa yn Hwlfordd. Bu'n rhaid imi godi'r mater gyda'r partner hynaf, ond teimlwn na ddylai fod rhaid imi wneud.

Cefais atebion cyffelyb hefyd wrth ddelio gyda chyrrff sydd yn derbyn nawdd cyhoeddus megis PAVS (Pembrokeshire Association of Voluntary Services) - does dim llawer o Gymraeg ar eu cyfyl, PLANED a nifer o elusennau y bûm yn gwneud gwaith gwirfoddol iddynt. Yr argraff a roddir, a'r hyn a ddywedir, yw bod y gwaith y maent yn ei wneud yn rhy bwysig, neu'n rhy anodd, iddynt wneud unrhyw ddarpariaeth na dangos unrhyw barch at y Gymraeg. Maent yn anwybyddu'r ffaith eu bod yno i wasanaethu'r Cymry Cymraeg hefyd, ac nid ydynt yn ymwybodol nac yn edifar o ddangos diffyg parch. Mae PAVS a PLANED yn cyflogi sawl un o Gyfandir Ewrop. Fe ymddengys nad ydynt yn ymwybodol o fodolaeth y Gymraeg. Mae agwedd Radio Pembrokeshire (eto'n wrth-Gymreig) yn warthus o sarhaus.

Ceisiodd fy ngŵr gyngor yn ddiweddar gan Pembrokeshire Tourism (nid oes teitl Cymraeg). Roedd am gynllunio poster ar gyfer cyngerdd. Fe'i gynghorwyd nad oedd angen Cymraeg arno o gwbl : " The Welsh clutters it up. It should not be on the top anyway"

Cafodd ein merch brofiad diflas a chwerw tua phedair blynedd yn ôl wrth geisio sefyll prawf Cymraeg theori gyrru car yn Hwlfordd. Bu rheolwr y ganolfan yn bersonol gas tuag ati am ei bod wedi trefnu sefyll y prawf drwy'r Gymraeg. Nid oedd modd llwyddo yn y prawf am nad oedd y cwestiynau Cymraeg yn gyflawn, roedd yr iaith yn annealladwy mewn manau, a doedd neb wedi sicrhau bod y cwbl yn gwneud synnwyr. Daethom a'r mater at sylw'r Bwrdd Iaith ac ymhen hir a hwyr cafodd ein merch brawf addas drwy'r Gymraeg. Mae'r bwli yn dal yn ei swydd, fodd bynnag, a does dim modd gwybod faint o ddrwg y mae'n ei wneud. Wrth i gyrrf a chwmnïau gynnig ffurflenni a gwasanaeth drwy'r Gymraeg, mae'n hanfodol bod y gwasanaeth yn cael ei gynnig ar yr un telerau a'r gwasanaeth drwy'r Saesneg.

Mae ffurflenni ac arwyddion yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg, ond yn aml nid oes neb yn darllen y proflenni. Teimlaf mai'r agwedd yw y gwnaiff un rhywbeth y tro os yw'n edrych yn debyg i 'Gymraeg'.

Gwn am ŵr ifanc a gafodd ei gynghori yn y Ganolfan Waith ym Mangor na ddylai anfon ffurflenni cais Gymraeg am waith. "Mae fy ngŵr yn gweithio yn 'human resources' (sic) ac yno (meddai hithau, gan ddangos y bin ysbwriel) mae'r ffurflenni Cymraeg yn mynd"

Yn gyffredinol, rhaid imi ofyn am ffurflenni Cymraeg mewn swyddfeydd post ag ati. Yn aml nid yw'r llyfrynnau Cymraeg yn cael eu dangos. Ymateb sarrug a gaf yn aml wrth ofyn am ffurflen neu wybodaeth yn Gymraeg. Roedd postfeistres Treletert, a oedd yn fewnfwraig, wedi cael gwared ar yr holl bapurach Cymraeg. Y mae ei swyddfa, ysywaeth, wedi ei chau bellach.

Yn gyffredinol hefyd, nid yw llythyrau Cymraeg yn cael eu hateb, neu os cant eu hateb rhaid aros yn hwy am yr ateb hwnnw.

Nid oes syndod felly nad yw pobl yn defnyddio ffurflenni a darpariaeth Cymraeg . I grynhoi, rhaid dangos parch i'r Gymraeg, a thrin gohebiaeth a ffurflenni Cymraeg yn yr un modd, cyn gyflymed â, a chyda'r un parch â rhai Saesneg.

Mererid Moffett

ATODIAD 49

Dwi'n poeni bod cwmnïau preifat yn cynnig peth 'gwasanaeth' yn y Gymraeg ond yn ffaelau ei ariannu yn gywir. Faint ohonnom sydd wedi gweld cyfieithiada trychinebus ar arwyddion ffyrdd/mewn siopau/ banciau ar y stryd fawr? O'm rhan i dwi wedi manteisio ar wasanaethau yn y Gymraeg ac yn hapus efo'r gwasanaeth - hyfryd cael trafod materion ariannol cymhleth yn y Gymraeg efo Nat West Aberystwyth, er enghraifft - dyna pam dwi heb symud fy manc i Gaerdydd! Gresyn bod y Bore Da yn troi i 'Sorry, but I don't speak Welsh' yn dilyn gan amlaf. (O leiaf eu bod yn ymddiheuro... cam ymlaen??)

Carys Pithouse

ATODIAD 50

Mae gyda fi brofiad wrth deilio gyda Nationwide a Swalec lle ges i drafferth derbyn gwasanaeth sylfaenol yn Gymraeg.

Un engraifft oedd sgwennu siec i rhywun a wnaeth nhw trio cael yr arian yn Accrington. Wnaeth y Cangen gwrthod derbyn y siec a roedd rhaid imi ail sgwennu'r siec. Wnes i cwyno wrth y gangen yn Aberystwyth a wnes i dderbyn ymddiheuriadau wrtho nhw yn Gymraeg ond dim iawndal o gwbl.

Roedd rhaid imi aros ar y ffôn am 15 munud gyda Swalec cyn cael rhywun oedd yn dysgu Cymraeg. Wnaeth y dyn ymdrech mawr ond roedd e'n amlwg cael trafferth mawr cyfarthrebu yn iawn. Y ffaith oedd y gwasanaeth wedi costio fi llawer fwy oherwydd dewisais i ddefnyddio Cymraeg. Fel rheol dyw Swalec ddim yn cyfarthrebu trwy Gymraeg o gwbl.

Mark.A.Strong

ATODIAD 51

Roeddwn yn chwilio am ystadegau o'r enwau mwyaf poblogaidd yng Nghymru ar gyfer y cwmni rwy'n gweithio iddi. Des i ar draws y wefan - <http://www.statistics.gov.uk/> - sy'n cael ei redeg gan yr ONS, ond doedd dim fersiwn Gymraeg. Wnes i chwilio felly am 'ONS Cymraeg' a dod ar draws <http://www.ons.gov.uk/cymraeg> - sydd gyda ychydig iawn o wybodaeth Cymraeg mewn ffram Saesneg.

Wnes i ffonio'r rhif cyswllt 0845 601 3034, ac ar ôl gwasgu ar opsiwn rhif 2 i siarad yn Gymraeg, cefais ddewis o 3 opsiwn. Os am ddanfôn ebost pwyswch 1, os am adael neges pwyswch 2, i siarad gyda rhywun yn Saesneg pwyswch 3!

Pa fath o wasanaeth Cymraeg yw hyn? Oes syndod mewn gwirionedd nad oedd niferoedd mawr yn defnyddio gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg pan maent mor israddol?

Dyma'r fath o 'wasanaeth' Cymraeg sy'n bodoli ar hyd y sector gyhoeddus yng Nghymru, ac mae'r sefyllfa llawer gwaeth yn y sector breifat!

Rhaid cael Mesur iaith gref i ddelio gyda'r anghyfiawnder yma.

Hedd Gwynfor
Cadwyn Cyf

ATODIAD 52

Dwi wedi bod yn pwysu ar HSBC ers dros 2 flynedd am gael bancio ar y We yn Gymraeg - ond heb gael ateb boddhaol o gwbl eto.

Geraint Lovgreen

ATODIAD 53

CYMDDEITHAS ADEILADU'R HALIFAX - BRON YN AMHOSIBL CAEL GWASANAETH YN GYMRAEG HYD YN OED YN Y GANGEN LEOL (ABERYSTWYTH) AC WRTH GWRS MAE POB GALWAD FFÔ YN MYND I RHYW GANOLFAN YN LLOEGR. DWI DDIM WEDI GALLU CAEL DEFNYDD YSGRIFENEDIG YN GYMRAEG.

DYDY BARCLAYS DDIM YN DDA IAWN CHWAITH - DOES DIM S^ON AR Y WEFAN AM SUT I GAEL GWASANAETH GYMRAEG ER BOD UN YN BODOLI, OND NID YW'R GWASANAETH GYMRAEG AR GAEL AM GYMAINT O ORIAU Y DYDD ^A'R UN SAESNEG.

HEFYD GAN BOD Y SWYDDFA DRETH YN ABERTAWA DDIM YN DELIO HEFO PETHAU YN GYMRAEG DWI WEDI CAEL SEFYLLFA LLE MAE DIFFYG CYFATHREBU RHYNGDDYN NHW A PHORTHMADOG (LLE MAE'R GWASANAETH GYMRAEG AR GAEL) WEDI GOLYGU NAD OEDD GWYBODAETH YN CAEL EI BASIO O UN SWYDDFA I'R LLAL - PAM NA ALL POB CANOLFAN YNG NGHYMURU WEITHREDU YN DDWYIEITHOG???

Dr Winifred Davies

ATODIAD 54

Dwi ddim yn hapus gyda'r gwasanaeth Cymraeg yr wyf yn ei dderbyn gan gwmnïau preifat yng Nghymru? Heblaw am wasanaeth arwynebol achlysurol yn Gymraeg gwasanaeth Saesneg yn unig a gynigir gan y mwyafrif o gwmnïau preifat yng Nghymru. Mae'n wir i ddweud bod rhywfaint o gwmnïau preifat yn cynnig rhywfaint o wasanaeth Cymraeg ond tocenistaidd yw'r ddarpariaeth yma'n unig.

Nid yw'r canlynol yn cynnig gwasanaeth Cymraeg boddhaol - Tesco, Co-op, Virgin One Account, HSBC, Pizza Hut, WH Smiths, Boots, Dorothy Perkins, Monsoon, New Look, Next, Clarks, Body Shop, Orange, Argos, Lloyds Pharmacy.

Gan fy mod eisiau derbyn gwasanaeth Cymraeg does dim dewis gyda fi ond i gymeryd cytundeb ffon gyda BT - mae hyn yn golygu fy mod yn colli arian bob mis. Mae nifer o gwmnïau eraill wedi cynnig cytundebau lot gwell na BT i mi ond nid ydynt yn cynnig gwasanaeth Cymraeg.

Mae Siop Boots newydd agor yn Llandysul - tref lle y mae 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn ol sensws 2001 ac heblaw am un neu ddau arwydd parhaol dwyieithog mae'r mwyafrif o arwyddion yn uniaith Saesneg.

Angharad Clwyd

ATODIAD 55

Roedd finnau a fy mrawd ar dren o Aberystwyth i Fachynlleth fin nos dwy flynedd yn ol, a gofynnais am docynnau sengl i Fachynlleth wrth y dyn-casglu-arian ar y tren.

Dyweddodd e "What?"

Gofynnais "Dwy docyn sengl i Fachynlleth, os gwelwch yn dda".

Dyweddodd: "I don't speak that language, speak English".

Dywedais: "This is a Welsh-speaking part of Wales, I thought you might speak Welsh".

Dyweddodd: "No, I don't speak Welsh", a dilynodd gyda llif o eiriau mewn iaith arall (Pwyleg, efallai?). "See, your language isn't the only one that people speak".

Dywedais: "what's your name - I'm going to submit a complaint to Arriva".

Rhoddodd e ei rif gweithiwr.

Anfonais gwyn i Arriva Trains Wales, ac ymatebon nhw trwy ddweud eu bod nhw'n mynd i roi "hyfforddiant cydraddoldeb" iddo. Ond mae'r sarhad a ddangoswyd gan y dyn wedi amharu yn sylweddol ar fy awydd i siarad Cymraeg ag unrhywun ar drafndiaeth gyhoeddus. Nid ydwyf wedi defnyddio fy iaith dewis wrth siarad a rhywun ar drenau Arriva Cymru yn y dwy flynedd ers y digwyddiad.

EISIAU AROS YN DDI-ENW

ATODIAD 56

Ar y cyfan nid wy'n hapus gyda'r gwasanaeth Cymraeg yr wyf yn derbyn gan fusnesau yng Nghymru. Mae nifer yn gwneud ymdrech, fodd bynnag ymdrech arwynebol ydyw ar y cyfan.

- **ASDA** - tra darperir arwyddion dwyieithog trwy'r siop (cangen Leckwith Rd, Caerdydd) a hysbysebion dwyieithog ar fyrddau hysbysebu'n yr ardal, gwasanaeth uniaith Saesneg a geir bob tro. Mae arwyddion dros dro (ee cynigion arbennig ar gyfer achlysuron megis y Nadolig, y Pasg, Sul y Mamau ayb) fwy na heb yn uniaith Saesneg. Mae'r sticeri pris (ar y silff), cyhoeddiadau dros yr uchelseinydd, y system til hunan-wasanaeth, sgriniau argraffu lluniau oll yn Saesneg. Hyd y gwn i does dim siaradwyr Cymraeg yn gweithio'n y gangen.
- **Tesco** - profiad ddigon tebyg i ASDA. Arwyddion dwyieithog o fewn y siop; tiliau hunan-wasanaeth dwyieithog, gyda'r mwyafrif o staff yn ei ddefnyddio i roi ad-daliad ayb yn ddigon ddi-ffwdan, (ac eithrio un profiad lle tybiodd aelod o staff fy mod wedi dewis yr opsiwn Cymraeg trwy ddamwain - a siaradwr Cymraeg oedd hwn!). Dim ond yng nghanen Rhodfa'r Gorllewin rwyf wedi gweld aelod o staff sy'n gwisgo bathodyn yn nodi ei fod yn medru siarad Cymraeg.

- **sky** - dim gwasanaeth cwsmeriaid Cymraeg ar gael o gwbl. Dim rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer meddalwedd defnyddwyr.
- **Orange** - ac eithrio arwyddion dwyieithog ar eu hen siop yng Nghaerdydd (sydd bellach wedi hen gau), nid wyf wedi cael unrhyw wasanaeth Cymraeg wrth Orange. Gellid darparu gwasanaethau ar-lein yn Gymraeg yn ddigon rhad.
- **Sinema Odeon** - dim darpariaeth Gymraeg o gwbl.
- **Greggs (the bakers)** - er i'r cwmni redeg ymgyrch hyrwyddo ddwyieithog beth amser yn ol, nid oes dim arwyddion Cymraeg tu fewn i'r siop nac ar unrhyw becynnau.
- **Alliance & Leicester** - dim gwasanaeth Cymraeg. Pob gohebiaeth yn uniaith Saesneg. Dim peiriannau arian ar gael yn Gymraeg.
- **Abbey**- dim darpariaeth Cymraeg. Mae eu peiriannau arian twll yn y wal yn perthyn i rwydwaith 'Link', ac nid yw'r rhain yn darparu gwasanaeth Cymraeg ar y cyfan.
- **HSBC** - darperir cyfriflenni ayb trwy'r Gymraeg. Mae hefyd modd defnyddio peiriannau arian trwy'r Gymraeg. Hyd y gwn i dim ond un aelod o staff cangen Heol y Frenhines, Caerdydd sy'n siarad Cymraeg. Darperir gwasanaeth Cymraeg dros y ffon, fodd bynnag mae'n rhif ar wahan, ac nid yw'n cael ei hyrwyddo mor eang a'r rhif Saesneg cyffredinol (ee mewn llyfrau ffon, ar eu gwefan ayb). Ar y cyfan gyda'r gorau o blith y gwasanaethau prin sydd ar gael yn Gymraeg o fewn y sector ariannol.
- **Halifax** - darperir llyfr siec dwyieithog (neu o leiaf gwnaed yn 2002-03). Ar wahan i hynny dim darpariaeth Gymraeg.
- **BT**- llinell ffon Cymraeg i drafod manion am y cyfrif. Nid oes modd trafod materion mwy cymhleth trwy'r Gymraeg, er enghraifft symud cyfrif o un darparwr i'r llall ayb.
- **Principality** - gwasanaeth ar-lein ar gyfer e-gynilon yn Gymraeg. Er i mi brofi rhai trafferthion wrth i'r rhyngwyneb gael ei gyfieithu (nid oedd modd i mi fewngofnodi ar y rhyngwyneb Gymraeg, dim ond trwy'r rhyngwyneb Saesneg), ymddengys bod y gwasanaeth bellach yn gweithio. Darperir negeseuon e-bost yn Gymraeg. Ni cheir gwasanaeth Cymraeg mewn canghennau, fodd bynnag, a gwasanaeth wedi'i gyfieithu sydd ar gael ar gyfer gohebiaeth.
- **Marks & Spencer** - darpeir tiliau hunan-wasanaeth gyda meddalwedd Cymraeg. Mae aelodau o staff yn gwisgo bathodynau i nodi eu bod nhw'n siarad Cymraeg. Serch hynny nid oes gwasanaeth Cymraeg ar gael bob amser (mae'n dibynnu a oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar ddyletswydd).
- **Bws Caerdydd / Cardiff Bus** - dim profiad o unrhyw wasanaeth trwy'r Gymraeg. Heb holi am wasanaeth Cymraeg ar y bws, gan nad wyf wedi dod ar draws unrhyw yrrwr sy'n medru'r Gymraeg. Hysbysiadau ar y bws am newidiadau i lwybr y bws oherwydd gweithgareddau ayb yn uniaith Saesneg. Gwefan ac amserlenni uniaith Saesneg.

Llyr

ATODIAD 57

Nid wy'n hapus gyda gwasanaeth Cymraeg yn y sector breifat.

Mae Virgin Media (NTL gynt) - wedi blocio mynediad i'r unig gwasanaeth cyfeirlyfr BT Cymraeg, sef 118 404 (achos eu bod nhw wedi blocio pob gwasanaeth BT).

Ffonau symudol 02 (a phob un arall am wn i) - dim gwasanaeth Cymraeg i gael.

Banc Barclays - er bod gwasanaeth busnes yn y Gymraeg i fod, does dim siap arno - maen nhw fel pebai yn methu ymdopi gyda phobl sydd wirioneddol am wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn drysu'n llwyr o'r herwydd.

Tim Pearce

ATODIAD 58

Rwyf wedi dysgu Cymraeg, ar ol magwriaeth ar aelwyd Saesneg, ac erbyn hyn mae'r iaith Gymraeg yn iaith gyntaf i fy mhlant, fy ngwraig a finnau. Nid wyf yn bodlon o gwbl gyda'r darpariaeth Cymraeg ei chyfrwng, yn y sector cyhoeddus heb son am y sector preifat. Gweler yr enghreifftiau isod.

1. Ni lwyddodd Pwll Nofio yn y Fflint i benodi siaradwr Cymraeg i ddysgu nofio i'r plant trwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Fel rhieni sydd yn maethu plant mae cofnodion pwyllgorau yr ydym yn ei fynychu yn parhau i fod yn uniaith Saesneg, er i ni godi'r cwyn yn swyddogol.
3. Nid oes yr un feddyg teulu yn medru siarad Cymraeg yn y feddygfa teuluol.
4. Nid oes siaradwyr Cymraeg ar gael mewn llyfrgelloedd lleol, megis Bwcle, Mynydd Isa, Cei Connah.
5. Nid oes siaradwr Cymraeg ar gael o hyd wrth cownteri y Swyddfa Post yn Yr Wyddgrug.
6. Er bod nifer fechan o staff cyflogedig yn siarad Cymraeg yn Tescos yn yr Wyddgrug, nid ydynt ar gael i ddelio gyda cwsmeriaid ac mae rhaid gofyn o hyd. Mae ei gohebiaeth ar bapur yn uniaith Saesneg ac mae pob cyhoeddiad yn y siop yn cael ei ddatgan yn uniaith Saesneg o hyd.
7. Nid wyf yn ymwybodol o'r un aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn 'Homebase' yn Yr Wyddgrug. Mae ei cyhoeddiadau hwythau a'i holl gwaith papur yn uniaith Saesneg.
8. Er bod yr HSBC yn cynnig linell ffon Cymraeg, rydym o hyd gorfod cael ein arallgyfeirio i adran arall i drafod unrhywbeth penodedig trwy gyfrwng y Saesneg.
7. Fe ymgymrais gyda 'Gwasanaeth Jury' am bythefnos yn mis Rhagfyr 2007. Roedd angen iddynt treulio amser i ddod o hyd i Feibl Cymraeg ac wedyn roedd rhaid aros i gael hyd i siaradwr Cymraeg i fod yn bresennol wrth i mi gymryd y llw. Ar ol y gwrandawriad fe ofynnais am offer cyfiaethu, i mi a'r ddwy siaradwr Cymraeg arall! You can speak and understand English? oedd yr ymateb!! (Llysoedd Ynadon Yr Wyddgrug).
9. Er i heddlu Gogledd Cymru cynnig linell ffon Cymraeg, maent yn aml yn danfon siaradwr di-Gymraeg allan i ddelio gyda'r cwyn wedi hynny, er i mi ofyn am wasanaeth Cymraeg.
10. Nid wyf yn ymwybodol o'r un aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn 'Iceland' yn Yr Wyddgrug. Mae ei holl gwaith papur hwythau yn uniaith Saesneg.
11. Heblaw am etholiadau i Senedd Ewrop mae pob plaid wleidyddol, ymhob etholiad, (heblaw am Blaid Cymru) yn postio cylchlythyrau a pamffledi uniaith Saesneg trwy ein drysau, yn Yr Wyddgrug. Ar y gorau mi fydd gan y Blaid Lafur cyfieithiad i'r Gymraeg wrth trin a thrafod amaethyddiaeth, ac ar adegau mi fydd y Ceidwadwyr wedi ceisio cyfieithu ei penawdau i'r Gymraeg!
12. Mae pob weithgaredd y Cyngor Dref (Yr Wyddgrug) yn cael ei gynnal trwy gyfrwng y Saesneg, gan gynnwys ei gohebiaeth i'r cyhoedd mewn ffeiriau a ylliau crefft lleol.

Gallaf parhau trwy'r nos ond yn anffodus mae'n ugain munud i hanner nos!!!!

Gareth V. Williams

ATODIAD 59

Yn gyffredinol nid ydwyf yn hapus gyda'r gwasanaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru. Rwyf yn gweld dewis ieithoedd eraill ond nid y Gymraeg. Er enghraifft cwmnïau ffonau symudol fel Vodafone. Dylai unrhyw gwmni sy'n cynnig gwasanaethau fel ffôn, trydan a nwy ayyb ddarparu gwasanaeth dwyieithog gyda chanolfannau galwadau yng Nghymru.

Mae rhan fwyaf o fanciau Cymru yn cynnig gwasanaeth dwyieithog yn eu peiriannau twll yn y wal ond nid y Royal Bank of Scotland yn archfarchnadoedd Tesco. Bellach oherwydd bod y banciau wedi derbyn cymaint o'n harian ni y trethdalwyr, oni ddylent gynnig gwasanaeth dwyieithog?

Alwyn Jones

ATODIAD 60

Dwi'n hollol anhapus gyda'r gwasanaeth yr ydwyf yn ei dderbyn gan y sector preifat yn Gymraeg.

Hoffwn ddefnyddio gwasanaethau ffon symudol yn y Gymraeg, archfarchnadoedd, a chwmnïau sy'n darparu pethau fel nwy / trydan a dwr. Dwi'n talu llawer gormod am nwy a thrydan ond am fy mod i am dderbyn y gwasanaeth yn y Gymraeg nid oes yr un opsiynau gyda fi sydd gyda phobl sy ddim yn mynnu ar yr un gwasanaeth. Sut mae hynny'n deg? Hoffwn ddefnyddio ond Cymraeg gyda fy manc ond dyw'r opsiwn ddim yna - dw i di mynd at HSBC oherwydd ei "agwedd bositif" at y Gymraeg ond yn ddiweddar maen nhw wedi gwrthod derbyn ffurflenni ei hun yn fy nghanen leol am fy mod i wedi'u cwblhau yn Gymraeg!! Hefyd er mod i wedi gofyn amdanynt nid oes rhai ffurflenni ar gael drwy'r Gymraeg. Hoffwn weld y Swyddfa Post yn cynnig ffurflenni Cymraeg yn hytrach na'r hen "O! ni ddim yn catw dim byd yn y Gymraeg" Hoffwn gael dewis iaith gyda'r cwmnïau teledu lloeren fy mod i'n eu defnyddio. Tra mod i'n talu treth ar fy mhetrol hoffwn ei thalu drwy gyfrwng y Gymraeg, hoffwn brynu tocyunnau i'r sinema neu fy nhocyn tymor pel-droed yn y Gymraeg. Hoffwn chwarae teg am 'mod i'n (nid er 'mod i'n) dewis byw fy mywyd drwy'r Gymraeg yn ardal Merthyr Tudful.

Defnyddiwch y wybodaeth hon i gyd at unrhyw bwrpas fydd yn arwain at hawliau teg ar gyfer y rhai sy ddim yn fodlon i dderbyn cael eu trin fel pobl ail ddosbarth.

Rob Hughes

ATODIAD 61

Rwyf yn cael fy nghyflenwad trydan gan gwmni o'r enw Good Energy sydd yn danfon biliau uniaith Saesneg i mi.

Cian Ciaran

ATODIAD 62

Dwi'n teithio i'r gwaith ym Mae Caerdydd ary tren bob bore ac yn defnyddio peiriant docynnau yng ngorsaf Heol y Frenhines yng Nghaerdydd bob dydd. Mae opsiwn am wasanaeth Cymraeg ar y peiriant ac wrth wthio'r botwm Cymraeg mae ambell gwestiwn Cymraeg yn codi – ond nid yw'n bosib chwilio am orsaf yn yr enw Cymraeg e.e tydi'r peiriant ddim yn deallt Caerdydd mae'n rhaid rhoi Cardiff. Ar ben hyn mae holl enwau'r tocynnau e.e. return, cheap away day ayb i gyd yn Saesneg. Teimlaf nad ydi hyn yn unrhyw fath o wasanaeth dwyieithog – a bod y ffaith bod y botwm ar y peiriant yn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg yn gwblwll gamarweinol.

Tydw i ddim yn hapus gyda'r gwasanaeth Cymraeg dwi'n ei dderbyn gan gwmnïau preifat yn Nghymru.

Dwi hefyd yn cael fy ngwasanaethau telethrebu gan gwmni Virgin a tydw iddim yn ymwybodol o unrhyw wasanaeth sydd i'wgael drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys drwy sgrin yteledu, dros y ffon neu drwy lythyr.

Alun Owens

ATODIAD 63

Y gyffredinol dwin tueddu defnyddio'r siopau sy'n defnyddio'r rhyw faint o Gymraeg, ennaf yn lleol Tesco.

Dwi ddim wedi defnyddio Sommerfield lleol am dros 3 blynedd, oherwydd ei safbwynt di Gymraeg, ac hefyd oherwydd 'r oeddent yn darbwyllo ni i cefnogi Loegr ym mhob cystadleuaeth posib. Nid ydynt yn sylweddoli fod iaith a diwylliant Cymraeg mewn bodolaeth!

Fe fues i'n teithio i Penybont i siopa yn Tesco, cyn i Tesco agor ei archfarchnad yn Maesteg 18 mis yn ol.

Y problem mwyaf yn yr ardal yma yw difaterwch Cyngor Penybont, sydd yn cael ei adlewyrchu trwy'r sir.

Illtyd ap Dafydd

ATODIAD 64

Ges i lot o sbort heddiw yn trio defnyddio gwefan Trennau Arriva i fwcio tocyn tren trwy gyfrwng y Gymraeg o Gaerdydd i Lanelli ac yn ol. Gwasanaeth eilradd iawn oedd i'w gael ac mi wnes i ffonio i gwyno. Roedd rhaid i mi siarad gyda rhywun yn India!

Gwenno Dafydd

ATODIAD 65

NID WYF YN HAPUS GYDA GWASANAETHAU CWMNIAU PREIFAT.

ER ENGHRAIFFT:

1. DIM CYHOEDDIADAU CYMRAEG AR DRENAU VIRGIN
2. DIM CYHOEDDIADAU CYMRAEG AR DRENAU ARRIVA
3. DIM BWYDLENNI CYMRAEG GAN MACDONALDS
4. ARCHFARCHNADOEDD - DIM MODD GWYBOD IAITH Y PERSON AR Y TIL HYD NES EICH BOD WEDI CYRRAEDD Y PERSON.

A LLAWER MWY!

Geraint Hughes

ATODIAD 66

Rwyf wedi gofyn yn ofer i fanc y Cooperative ac i Gymdeithas Adeiladu Nationwide i gynnig gwasanaethau dwyieithog. Mae hi'n mynd yn gynyddol anodd i gael gwasanaeth wyneb-yn-wyneb trwy'r Gymraeg yng nghangen Aberystwyth o'r HSBC (ond mae cangen Bangor yn dda, a'r ganolfan alwadau Cymraeg yn ardderchog). Boots - llai o staff yn siarad Cymraeg yng nghangen Aberystwyth rwan nag a fu ychydig flynyddoedd yn ôl, ers i'r gyn-reolwraig ymddeol. (Ar wahân i Boots, prin yw'r siopau cadwyn y byddaf yn eu mynychu; nid wyf byth yn mynychu bwytai a thafarnau sydd yn rhan o gadwyni).

Arriva Trains Wales: gohebu yn Gymraeg yn bosibl a llawer o'r datganiadau sain yn ddwyieithog, ond prin yw'r staff sy'n siarad Cymraeg. Yn y gorsafoedd lle yr uwchraddiwyd y sgriniau gwybodaeth, collwyd y fersiwn Gymraeg.

Hoffwn nodi hefyd bod nifer o adrannau/asiantaethau'r llywodraeth yn methu neu'n gwrthod darparu gwasanaeth yn Gymraeg. Mae'r gwasanaeth iechyd, yn fy mhrofiad i, yn darparu mwy o wybodaeth ysgrifenedig i gleifion yn Gymraeg ond mae hi'n gynyddol anos cael gwasanaeth Cymraeg ar lafar. Anaml iawn y mae modd cael Cymry i ateb ymholiadau dros y ffôn yn Ysbyty Glan Clwyd, er enghraifft. Mae amrywiaeth mawr o sefydliad i sefydliad ac o adran i adran.

Wrth weithredu dros berthynas anabl daeth i'm sylw bod y rhain yn gyndyn IAWN i ddefnyddio'r iaith, mewn llythyron yn arbennig, er gwaethaf gofyn yn gyson:

1. Swyddfa budd-dal (DWP) Bae Colwyn
2. Y Gwasanaeth Pensiwn, Abertawe

Cyfyd problemau o hyd gyda chyrrff cyhoeddus lle nad oes swyddfa yng Nghymru:

1. Swyddfa'r Lwfans Anabledd (Disability Living Allowance) yn Blackpool (hyd y gwn i, nid oes swyddfa yng Nghymru)
2. Office of the Public Guardian (rhaid gwneud cais i'r swyddfa hwn i gael caniatâd y llys i weithredu dros

person anabl o ran materion ariannol a lles). Mae rhai ffurflenni a nodiadau ar gael yn Gymraeg ond nid oes gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn na thrwy lythyr.

Mae angen sicrhau fod y Gymraeg yn rhan o'r broses uwchraddio a diweddarau arwyddion, hysbysrwydd ac ati; yn rhy aml uniaith Saesneg fydd y fersiynau newydd.

Ceridwen Lloyd-Morgan

ATODIAD 67

Wrth ffonio Scottish Power yn ddiweddar, cael fy nghyfarch ymhen amser gan ŵr Saesneg yr iaith ag acen Albanaid. Gan fy mod eisiau adrodd hanes polynion trydan wedi eu malurio ar y mynydd ger Ffestiniog, a minnau'n angen siaradwr Cymraeg iddo allu deall enwau lleoedd Cymraeg i gyfeirio gweithwyr atynt, yn gorfod aros am hydoedd, ar fy nghost fy hun, nes i Gymro ddod i'r fei. Dylai'r gwasanaeth gyfeirio at siaradwr Cymraeg yn syth bin, nid gorfod aros amdano. Gwasaneth eilradd ydi hyn.

Vivian Parry Williams

ATODIAD 68

Rwy'n fydwraig gymunedol ac rwy'n gweithio yng Nghwm Gwendraeth uchaf. Cawsom wybod y byddwn yn rhoi ffurflenni grant newydd gan y Llywodraeth 'Health in Pregnancy Grant Claim' i bob merch sy'n disgwyl babi ar ôl Ebrill 3ydd, i roi un grant o £190 i baratoi at ddyfodiad y babi. Cynrhaeddodd y grantiau iaith Saesneg y ward yn Glangwili diwedd Ionawr yn barod erbyn Ebrill. Gofynnais i reolwr y ward a oedd ffurflenni Cymraeg ar gael oherwydd mae dros hanner y merched rwy'n ymweld â nhw yn rhinwedd fy swydd fel bydwaig yng Nghwm Gwendraeth yn siarad Cymraeg. Dywedodd nad oedd yn gwybod dim am y ffurflenni Cymraeg a dywedodd nad oedd angen ffurflenni. Darllenais y rhywle wedyn y gallen ofyn am ffurflenni Cymraeg ond yn byddant yn penderfynu a oes angen ffurflen Gymraeg yn ddibynnol ar faint bydd yn eu defnyddio. Ffoniais linell ffôn yr HM Revenue Cymraeg ac fe ddargyfeiriont fi i rywle arall. Ar ôl dargyfeirio fi eto, llwyddais i archebu 100 o ffurflenni Cymraeg er sioc y dyn arall ben arall y ffôn. Dywedodd y bydd hi'n cymryd 5 wythnos i'r ffurflenni fy nghyrraedd a fydd bythefnos ar ôl i'r dyddiad pan gaiff merched ddechrau gwneud cais am y grant. Byddaf yn sicrhau fod y ffurflenni'n cael eu defnyddio oherwydd byddai'n rhoi ffurflen Gymraeg i bob merch sy'n siarad Cymraeg, sef dros hanner y merched yng Nghwm Gwendraeth. Mae wedi fy nharo pa mor ddibynnol yw'r Gymraeg ar unigolion o fewn systemau sy'n mynnu fod pethau'n cael eu gwneud yn y Gymraeg oherwydd ni fyddai'r ysbyty wedi meddwl gwneud hyn eu hunain.

Eirwen Jones

ATODIAD 69

Nid oes gwasanaeth Cymraeg o gwbl gan N Power Trydan. maent yn gwrthod anfon anfonebau Dwyieithog. Roeddwn am agor cyfrif 'Ymddiriedolaeth Gwynfor' yn un o'r Banciau. Lloyds TSB - Dim ffurflenni Cymraeg i agor cyfrif Busnes neu Gymdeithasau. Nat WEst - Neb yn medru ymateb pan y gelwais i mewn yng Nghaerfyrddin. Ond, ymhen diwrnodau fe ffeindiwyd rhywrai yn Aberystwyth Barclays - Dim ar gael. HSBC - Holi am rai Cymraeg. Dywedwyd nad oedd ar gael. Gwelais Gymraes arall ac fe ffeindiwyd rhai i mi. Mae hyn yn dangos pa mor anodd y mae hi i gael deunydd Cymraeg hyd yn oed os y'n nhw ar gael.

Peter Hughes-Griffiths

ATODIAD 70

Dwi ddim yn hapus efo nifer o cwmnïau preifat o gwbl yn cydestun yr iaith Cymraeg e.e. Asda Wrecsam, WH Smiths Wrecsam, MarcherSound. Bellach dwi ddim yn hapus efo eu hagwedd nhw pan dwi wedi gofyn pam da nhw ddim yn darparu arwyddion Cymraeg.

Pol Wong

ATODIAD 71

Prin iawn yw'r gwasanaethau a gynigir yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o bethau bellach ar y We ac mae hynny wedi rhoi cyfle i BT, British Gas ac i'r banciau anghofio am y Gymraeg. Ceir rhyw dudalen o Gymraeg sy'n gwbl ddi-werth ac i gael unrhyw wybodaeth bellach rhaid defnyddio gwefan Saesneg.

- i. Nid yw Smile, Banc y Co-Operative, yn defnyddio'r Gymraeg o gwbl.
- ii. Nid yw'r arwyddion dwyieithog yn yr archfarchnadoedd yn adlewyrchu cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar. Ni welaf neb yn y siopau'n gwisgo bathodynau'r Bwrdd Iaith, er enghraifft, ac mae bron unrhyw ymdrech i siarad Cymraeg yn yr archfarchnadoedd yn cael ei weld fel 'bod yn anodd ac yn od'. Mae'r ffordd yr edrychir ar siaradwyr Cymraeg yn dweud hynny heb eiriau. Ni cheir byth enwau ffrwythau a llysiau a phethau defnyddiol o'r fath wedi eu hysgrifennu yn Gymraeg yn unman.
- iii. Mae'r arwyddion gan y Bwrdd Iaith sy'n dweud bod modd siarad Cymraeg yn amlach na pheidio yn diystyr, gwaetha'r modd. Syndod yw cael ateb Cymraeg lle y gwelir arwyddion o'r fath.
- iv. Ni wn am gwmni yswiriant sy'n defnyddio'r Gymraeg. Yn sicr, nid yw'r prif gwmnïoedd yn cydnabod bodolaeth yr iaith.
- v. Unwaith bwm mor wirion ag ymweld â chyfreithiwr. Er bod modd siarad Cymraeg, roedd disgwyl i'r holl waith fod yn Saesneg ar bapur am nad oedd ysgrifenyddes a fedrai ddefnyddio'r iaith, a phan oedd sôn am gael ffurflen Gymraeg i'r llys, roedd yn rhaid anfon amdani a hynny'n gyfle i'r cyfreithiwr hawlio crochris am ysgrifennu llythyr arall. Sylweddolais nad oes cyfiawnder yn Gymraeg.
- vi. Pwy yn ei iawn bwyll a ofynnai am docyn bws yn Gymraeg? Byddai'r gyrrwr yn edrych mor gas fel na fyddai'n gwneud eto, beth bynnag.

Rhisiart Hincks

ATODIAD 72

Nid wyf yn hapus gyda gwasanaethau Cymraeg yn y sector breifat yng Nghymru. Mae nifer fawr o fusnesau yn y wlad sydd nid yn unig ddim yn gwneud dim ymdrech cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ond maent hefyd yn ymateb yn anfoesgar os ydw i'n dechrau'r sgwrs yn Gymraeg.

Rydw i'n defnyddio gwasanaethau cwmni Halifax yn aml iawn, ac er bod rhai pethau yn y gangen leol ym Mangor yn Gymraeg, does dim llinell ffon Cymraeg a dim Cymraeg ar ei gwefan. Mae hyn yn gwneud i fi deimlo nad ydynt yn poeni rhyw lawer am eu cwsmeriaid yng Nghymru.

Mae cwmni bysiau Arriva ar y cyfan yn dda am roi arwyddion dwyieithog ar eu bysiau, ond mae nifer o'r staff yn anfoesgar iawn gyda siaradwyr Cymraeg. Rydw i wedi cael sawl un yn fy ateb yn haerllug iawn ar ôl i fi ofyn am "Singl i Fethesda plis" - nad yw, ga' i bwysleisio, yn frawddeg anodd ei deall, hyd yn oed i rywun di-Gymraeg.

Mae bwyty'r Bull ym Miwmares yn fwyty bendigedig, ond yn anffodus, dydi'r gwasanaeth Gymraeg ddim cystal ag y gallai fod. Mae'r fwydlen ar gael yn Gymraeg, ond dydi hyn ddim yn amlwg o gwbl. Maent wastad yn dod a bwydlen Saesneg i chi, ac wedi i chi ddarllen hwnnw, rydych chi'n gweld brawddeg fach iawn ar ddiwedd y dudalen yn eich hysbysebu fod bwydlen Cymraeg ar gael, ond bod rhaid i chi ofyn i'r staff cyn cael un. Dydw i ddim yn licio gofyn i gael un, fodd bynnag, achos bod hyn wedyn yn gwastraffu amser cyn gallu ordro. Mi fyddai'n neis cael bwydlen ddwyieithog heb orfod gofyn.

Mae trê'n bach yr Wyddfa hefyd yn enghraifft arall o ddiffyg Cymraeg yn fy ardal i. Rwy wedi bod arno gyda ffrindiau, ac yn gweld hi'n warthus fod gwasanaeth sydd wedi ei leoli ar yr Wyddfa, o bobman, yn un uniaith Saesneg.

Rwy hefyd yn anhapus ynglŷn â'r ffaith bod sawl cwmni yn hyrwyddo eu nwyddau fel "nwyddau Cymreig" ac yn defnyddio ambell air Cymraeg er mwyn marchnata yn unig, heb wedyn ddefnyddio'r iaith er mwyn eu cwsmeriaid Cymraeg. Un enghraifft yw Tŷ Nant - cwmni sydd yn pwysleisio ym mhob man mai cwmni "Cymreig" ydyn nhw, ond sydd â gwefan uniaith Saesneg.

Tegau Andrews

ATODIAD 73

Wedi derbyn gohebiaeth gan wasanaeth llysoedd y gogledd, yn gofyn i mi dalu dirwy o £870

Yn syfrdanol mi oedd yr ohebiaeth yn uniaith Saesneg, gyda esgus tila yn nodi na all eu system gyfrifiadurol ymdopi a defnyddio'r Gymraeg. Dwi wedi gyrru'r llythur yn ol, gan nodi na fyddai hyd yn oed yn cysidro talu, tan i mi dderbyn gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Osian Jones

ATODIAD 74

Mae llawer o waith i'w wneud eto gydag ambell gwmni. Mae mor braf gallu siarad yn Gymraeg â rhywun dros y ffôn neu gael gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae siop fwyd Morrisons yn ofnadwy yma yn ardal Caernarfon a Bangor . Ychydig iawn o arwyddion Cymraeg sydd ar gael ac ychydig iawn o staff Cymraeg hefyd sydd ar gael yn y siopau mawr lleol. Mae Tesco rywfaint yn well ond mae lle mawr i wella o hyd. Dwi'n dueddol o gefnogi busnesau lleol lle mae'r Gymraeg yn cael yr un statws â'r Saesneg e.e. siop Na Nog, Palas Print, siopau gwerthu brechdanau, caffis lle mae 'na staff Cymraeg yn gweithio. Dwi'n bancio gyda HSBC ac mae'r gwasanaeth Cymraeg yn dda iawn yn y banc lleol ac rwy'n derbyn bron pob gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond wrth gwrs nid yw gwefan bancio personol ar gael yn y Gymraeg. O beth welaf i, ychydig iawn o wefannau Cymraeg sydd ar gael ar gyfer y gwasanaethau rwy'n eu defnyddio. Dan ni wedi newid o NPower i Nwy Prydain gan eu bod yn darparu biliau Cymraeg. Ond mae llawer o waith i'w wneud eto er mwyn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg cwmnïau preifat yn denu cwsmeriaid i'w defnyddio.

Tegwen Alaw Parri

ATODIAD 75

Anhapus iawn gyda gwasanaeth Cymraeg yn y sector breifat. Darpariaeth dameidiog a dim safon traws-ddiwydiannol ar ddarllenadwyiaeth yr iaith (e.e.'Cymraeg Clir', neu ganllaw'r RNIB, sy'n gyfystyr â'r 'Clear English Campaign'). Golygu nad yw'r Gymraeg mor hawdd i'w ddefnyddio â'r saesneg.

Yn wir am fwyafrif o'r ddarpariaeth dameidiog (i.e. 'tokenistic', pan mae'n rhan o strategaeth farchnata, ac nid polisi gweithredu), fod y Gymraeg o safon is, yn aml yn wallus neu anarllenedwy - yn defnyddio jargon newydd-ei-fathu a chymraeg or-ffurfiol - sydd yn fy marn i, yn gwneud mwy o bobl yn gyndyn i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle - fel cwsmer neu berson busnes. yr opsiwn 'Cymraeg' wedi'i guddio neu'n darfferthus i fynd ato, yn creu ffws o flaen y cyhoedd neu'n creu ciw etc -

The current private sector provision for welsh speakers functions in such a way so that the quality of service is far poorer, even from companies well known for their customer service, such as Marks and Spencer. One is much more likely to choose a company which provides adequate services to welsh speakers, in the knowledge that one won't be embarrassed by miscommunication; confounded by newly coined jargon in overly-formal registers; made to feel as is one is 'kicking up a fuss about nothing' unexpectedly.

- O2 Mobile - dim gwasanaeth o gwbl yn y gymraeg (ar lein, taflenni, gwasanaeth llafar, hybysebion tymor hir/byr, biliau)
- Carphone Warehouse - dim gwasanaeth o gwbl yn gymraeg
- Swalec - Neges wedi'i recordio ar ddechrau'r gwasanaeth ffon. Darpariaeth wael i gwsmeriaid. Cyfathrebiad i gyd yn saesneg.
- Tesco - Peiriannau hunan ddewis ar gael yn gymraeg. Dim Arwyddion dros dro, gwasanaeth llafar, nac i gwsmeriaid ar lafar/bwrdd bwletin/posteri.
- Banc Co-Operative - cynnig opsiwn cymraeg yn y twll yn y wal. Wedi ei bwyso, mae'n arwain yn syth yn ôl at y saesneg. Dim gwasanaeth cymraeg
- Nat West - dim gwasanaeth Cymraeg. Rhai arwyddion. Staff yn gwrthod cymeradwyo sic oedd yn defnyddio sillafiad cymraeg arno. Llyfr sic ar gael, ond ddim ond i bobl llaw dde! (Mae'n od - rhaid dewis: ydw i'n 'leiafrif' yn llygad y banc am fy mod yn siarad cymraeg? ydw i'n 'leiafrif' am fy mod yn chwathig? oes rhaid i fi ddewis? Sefyllfa absurd!)

- Marks & Spencer - Dim arwyddion dros dro, staff, gwefan, gwasanaeth ffon.
- House of Fraser - Dim gwasanaeth cymraeg o unrhyw fath.
- Endsleigh Insurance - Dim gwasanaeth cymraeg o unrhyw fath.
- Central Trains (nhw sy'n rhedeg o Gaerdydd?) - Datganiadau dwyieithog ar y platform, ond dim dogfennaeth, staff sicr eu cymraeg, hydnoed ar 'Travel Line Cymru', sy'n hysbysebu yn gymraeg.
- Arriva - dim gwasanaeth Cymraeg, nag arwyddion. Dim ond amserlenni.
- Cardiff Bus Company - hysbysebion 'Cardiff Bus Co' (tôn: 'we know our city and the people who live there' etc. Exclusive iawn!) ar hyd y bysiau yn uniaith saesneg.
- Tafarndai Brains: bron dim darpariaeth gymraeg heblaw am gyfraniad ychwanegol staff unigol. Eu hysbysebion yn chwarae ar ddelwedd o'r 'Wir Gymru' hefyd!
- Wetherspoons - dim darpariaeth gymraeg
- Boots - dim darpariaeth gymraeg
- Unrhyw fwyty gadwyn e.e. Wagamama, Gourmet Burger Kitchen, Strada, Zizzi, Pizza Express, Bella Pasta, McDonalds, Burger King, Subway - dim Cymraeg ar arwyddion hir/byr dymor. Dim cymraeg gan staff blaen ty, nag yn swyddfeydd y cwmni.

Sara Huws

ATODIAD 76

Dwn im ydi hwn yn y ffolder cwynion yn barod, ond un peth sy'n gwylltio fi'n arbennig ydi Ann Beynon yn brolio gwasanaethau Cymraeg BT drwy'r amser - pan mae'r gwasanaeth Cymraeg yn anhygoel o brin AC MAE'N COSTIO'N YCHWANEGOL!

BT yn annog pawb i gael biliau arlein (sy'n beth da) - ond os dwishe bil Cymraeg bydde rhaid i fi switshio i gael bil papur - sy'n £1.23 ychwanegol y mis.

Enghraifft arall - mae'r teclyn ateb 1571 am ddim, ond os dwi eisie'r neges cyfarch yn Gymraeg, bydde rhaid i fi dalu £1.47 y mis am y fraint.

Felly jysd i gael y gwasanaeth hollol sylfaenol gan BT yn Gymraeg, mae disgwyl i fi dalu £32.40 y flwyddyn yn fwy na rhywun sy ddim yn siarad Cymraeg.

Ac wedyn mae Ann Beynon yn cwyno bod dim digon o bobl yn defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg! Wrth does dy'n nhw ddim - mae pawb call yn mynd i fynd am yr opsiwn rhatach, sef Saesneg yn unig.

Iwan

ATODIAD 77

Mae'r Gwasanaeth Iechyd yn defnyddio cwmnïau a chyrrff allannol i roi gwasanaeth i gleifion a dwi'n tybi nad oes polisau iaith cadarn gyda nhw, fel sydd gyda ni yn y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol, gyda swyddog iaith nawr, mewn pob ymddiriedolaeth iechyd.

Enghreifftiau: Ysbytau preifat seiciatrig a forensic. Elusennau sydd yn rhoi cymorth i cleifion sydd a salwch difrifol.

Gudrun Jones
Therapydd Celf B.A (Hons), Dip. A.Th, M.PHil, SRAT.

ATODIAD 78

Mae M&S newydd agor siop arall yng Nghaerdydd 'Home and Food' ym Mharc Manwerthu Prifddinas Caerdydd yn Ffordd Lecwydd (ddoe agorodd hi). Es i yno heddiw i weld faint o Gymraeg a welwn ac a glywn. Gan ei bod yn siop newydd, dyma gyfle euraidd i gynllunio siop ddwyieithog o'r cychwyn heb orfod disodli hen arwyddion a rhoi rhai newydd i fyny, ond gwaetha'r modd, prin iawn yw'r Gymraeg yn y siop anferth newydd. Mewn gwirionedd, gallwch chi gyfrif nifer yr arwyddion Cymraeg ar un llaw: Talwch yma;

Toiledau; Archebu; Liff; Dim Ysmygu. 99.9% o'r arwyddion yn uniaith Saesneg. Ar ben hynny, roedd llais hyfryd o ogledd Lloegr yn croesawu pawb i'r siop newydd dros y tanoi, ond dim byd yn Gymraeg wrth gwrs. Dyma pa fath o fantais mae M&S yn cymryd o'r cyfle i ddarparu yn Gymraeg yn wirfoddol.

Richard

ATODIAD 79

Hoffwn gael gwasanaeth yn Gymraeg gan y banciau. Mae yna linell ffon yn Gymraeg ond yn y canghennau mae popeth yn Saesneg - taflenni, ffurflenni, staff ddim yn siarad Gymraeg a mae'r wefan yn uniaith Saesneg.

Hefyd bysiau Stagecoach yng Nghaerffili mae popeth yn Saesneg. A trenau Arriva, mae yna gyhoeddiadau ynglyn ag amserau'r trenau yn ddwyieithog ond pan rydych yn prynu tocyn a dangos y tocyn ar y tren dyw'r person ddim yn siarad Gymraeg.

Mair Stuart

ATODIAD 80

Rwy'n byw ar bwys Caerfyrddin, a dyw cerdded o amgylch y dref yn ddim gwahanol i gerdded o amgylch unrhyw dref arall yn Lloegr, Saesneg yw'r iaith yn unig sydd i'w weld ar bob stryd fawr. Y mae'r siopau stryd fawr a'u gwasanaeth i gyd yn uniaith Saesneg. Pan yn prynu dillad, anrhegion, cardiau, stwff chwaraeon, cyfrifiaduron, ffonau symudol, esgidiau, colur, trin gwallt, stwff i'r swyddfa, bwyd ayb ayb mae'r holl arwyddion yn Saesneg. Mae'r sticeri ar y ffenestri yn uniaith Saesneg; mae'r arwyddion sy'n hongian o'r toeon yn Saesneg (weithiau ceir y Gymraeg mewn ambell i siop); mae'r arwyddion uwchben y gwahanol eitemau yn Saesneg; mae'r holl becynnu yn uniaith Saesneg; mae'r bathodynau / sticeri yn Saesneg – beth sydd i ddweud ein bod mewn gwlad wahanol? Ble mae'n amlwg nad yn Lloegr ydym?

Pan yn mynd i'r banc neu'r swyddfa bost, cynigir llwyth o waith papur i mi yn uniaith Saesneg, a rhaid i fi ofyn am y Gymraeg, a rhaid iddyn nhw fynd i'r selar (neu ble bynnag) i nol y cynnyrch Gymraeg, rhaid i bobol aros tan mod i'n cael y stwff yn Gymraeg, ac rwy'n teimlo fel niwsans. Rwy'n ffonio cwmni ffon BT a rhaid gofyn am wasanaeth Gymraeg, rhaid i minnau aros, weithiau hyd at hanner awr (rwy wedi gwneud) tan y byddaf yn cael gwasanaeth Gymraeg, weithiau does dim i gael. Y mae pobol wedi brwydro'n galed i gael addysg Gymraeg, arwyddion dwyieithog, cyfryngau Gymraeg, ond at ba ddefnydd os yw'n amlwg ei bod yn iaith israddol i'r Saesneg yn ei gwlad ei hun? Mae'r gwleidyddion yn pregethu bod angen i'r iaith oroesu, does neb yn dymuno tranc yr iaith, ond eto y nhw sydd gyda'r pŵer i'w helpu, i fynnu hawliau cyfartal ond yn gwneud dim yn ei chylch. Dim ond ffwl sy'n credu y bydd yr iaith yn parhau gyda dim ond grym ewyllys da. Mae'r Gymraeg yn guddiedig, dyw hi ddim i'w gweld ar ein strydoedd mawr, os ydyw yno mae'n aml mewn llythrennau llai, neu'n llawn gwallau iaith. Dyma fy mamiaith, dyma famiaith Cymru, ble mae hawliau'r iaith? Ble mae fy hawliau i?

Fi yw rheolwraig Canolfan a llety Tresaith, Ceredigion. Rwy'n cynnig gwasanaeth hollol ddwyieithog, dyw hyn ddim yn anodd, dyw hyn ddim yn costio'n ychwanegol, a dweud y gwir mae'n denu mwy o sylw a mwy o fusnes. Rwy innau yn trial fy ngorau i ddefnyddio cwmnïau a busnesau dwyieithog, ond mae hyn ymron yn amhosib. Ni chynigir unrhyw ddeunydd dwyieithog gan y cwmni nwy (Calor); dyw biliau talu 'pay phone' ddim ar gael yn Gymraeg; darpariaeth Saesneg sydd gan y cwmni trwsio ffwrn nwy; darpariaeth Saesneg sydd gan yr holl drydanwyr rwy wedi cysylltu; darpariaeth Saesneg sydd gan yr holl blwmwrs rwy wedi cysylltu; Saesneg yw'r cwmnïau rydym yn prynu nwyddau oddi wrthynt – arwyddion, deunydd marchnata ayb Pan yn ffonio cwmnïau mawr (ffon, trydan, teledu ac ati) rwy'n gofyn am wasanaeth Gymraeg, yn aml does dim i gael, neu rhaid aros am sbel go hir, neu rhaid yw ffonio rhywbryd eto neu adael neges. Rwy'n rhedeg busnes ac eisïau ateb yn syth, dyw hyn ddim yn ddigon da. Yn aml fe af ati i gysylltu'n Saesneg er mwyn cael y wasanaeth a ddarperir i eraill, ond i'r Cymry Gymraeg

Heledd ap Gwynfor

ATODIAD 81

Dwi'n ffodus i fyw a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd, ac fel person sy'n wreiddiol o Gaerdydd dwi wastad wedi bod yn ymwybodol ei bod hi'n ddinas weddol Saesneg. Mae'n wir fod hyn wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd, gydag ewyllys da ambell i fusnes, a'r cyngor, yn cyfieithu arwyddion, ond gan fwyaf, presenoldeb Saesneg sydd yn dal i gael ei deimlo trwy gydol y ddinas.

Fel siopwraig frwd, er enghraifft, dwi wedi hen deimlo bod Caerdydd wedi datblygu i fod yn dre fel unrhyw dre arall ym Mhrydain gyda union yr un siopau stryd fawr ag a welir yn Reading, Bryste, ac Efrog, a'r UNIG beth sydd i wahaniaethu rhwng Caerdydd a'r dinasoedd hyn ydyw presenoldeb arwyddion yn y Gymraeg yn y siopau. Mae datblygiad arfaethedig St Davids 2 yn bryderus, wrth geisio atynnu'r un siopau ag arfer, ac mi ydw i'n gofyn, i ba raddau fydd yna bresenoldeb Cymraeg yn y ganolfan anferthol hon- yn wir, faint o bwysau sydd ar y cwmnïau hyn (John Lewis, Jamie's Italian restaurant, French Connection, ac ati sydd yn debygol o agor yno) i ddarparu arwyddion, a chyflogi aelodau o staff sydd yn medru'r Gymraeg?

Ro'n i wrth fy modd i weld siop fel Primark- sydd yn gwmni sy'n deillio o Iwerddon- yn sefydlu gofod anferth reit yng nghanol y ddinas ychydig flynyddoedd yn ôl ac yn dewis arddangos arwyddion dwyieithog gwych, a chwbl eglur (HEB ddefnyddio cyfieithiadau anghywir, sy'n sarhau'r iaith) ar bob llawr.. Mae hyn yn wych, a hynod gyffrous, ac yn gwneud i rhywun deimlo eu bod nhw mewn dinas (a gwlad) wahanol, sy'n perchnogi DWY iaith. Ond mae hyn yn enghraifft prin iawn.

Mae gwlad- a phrifddinas- sydd yn ymffrostio dwy iaith (os nad mwy) yn arwydd o hunan-hyder, ac aeddfedrwydd, ac yn hefyd yn arwydd o fod yn "gospopolitan". Fel ddwedodd y bardd Mererid Hopwood unwaith pa ofynwyd iddi paham ei bod hi'n siarad gymiant o ieithoedd, "mae fel byw mewn ty gyda mwy nag un ffenest ar y byd. Fyddech chi ddim eisiau byw mwn ty gyda mond un ffenestr, na fydddech?". Mae dinas sydd yn ardangos ei hyder y ei DWY iaith ym mhob rhan fywyd y ddinas honno yn debygol o ennyn clod a pharch, a diddordeb gan ymwelwyr a thrigolion lleol. Normaleiddio'r iaith Gymraeg sydd ei angen, a'i gosod ar yr un lefel a'r iaith Saesneg.

Dwi'n cofio fel plentyn clywed Cymraeg gan gwsmer y tu ol i mi yn Marks and Spencer, troi i'w hedrych arnynt mewn rhfeddod, gan mor brin o beth oedd hynny. Bellach dwi ddim yn troi i edrych, gan fod clywed y Gymraeg yng nghanol y ddinas yn beth cyffredin tu hwnt. Mi fyddai'n braf meddwl y gallai'r Gymraeg gael presenoldeb weledol mor gryf a'i phresenoldeb glywedol yng Nghaerdydd, Prifddinas Cymru.

Lowri Haf Cooke

ATODIAD 82

Fy marn i ydi nad ydi'r ddarpariaeth yn gyffredinol hanner digon da gan gwmnïau preifat. Rhywbeth sydd wedi 'nghorddi'n ddiweddar ydi'r cwmnïau cyflenwi trydan a ffôn. Dros y blynyddoedd diwethaf dwi wedi bodloni ar dalu mwy am fy nhrydan, fy nwy a'r biliau ffôn er mwyn cael biliau yn y Gymraeg. Ond pam ddyliwn i gael fy nghosbi am ddilyn fy nghydwbybod? Yn dilyn y cynydd yn y prisiau dros yr hydref a'r gaeaf diwethaf rwyf o'r diwedd wedi newid fy nghyflenwr i gwmni sy'n cynnig gwell telerau o bell ffordd. Y pris am hynny –ar hyn o bryd- ydi gorfod cyfathrebu a derbyn biliau yn fy ail iaith. Mae'r un peth yn wir am y ffôn. Rwyf wedi aros efo BT i gael rhyw lun o wasanaeth Cymraeg. Wedi dweud hynny, ar ôl dod yn gwsmer band-eang, bu pob ffurflen, cytundeb, gohebiath a chymorth yn y Saesneg gan BT. Yn ddiweddar mae BT wedi bod yn annog cwsmeriaid i droi at filiau di-bapur, h.y derbyn popeth trwy e-bost a thrin y cyfiri dros y we. Rhesymau gwyrdd sy'n cael eu clochdar gan BT am hyn, ac mae arbediad o tua £4 y chwarter yn anogaeth i'r cwsmer. Ond mae popeth ynghlwm â hyn yn ddi-Gymraeg. Os wyf am barhau i dderbyn biliau Cymraeg, mae'n rhaid aros efo'r system papur, ac mae pawb sy'n 'dymuno' derbyn biliau papur yn gorfod talu £4 y chwarter am y fraint! Enghraifft felly o wahaniaethu clir a chosb amlwg i rywun sydd eisiau gwasanaeth Cymraeg. Cefais addewid y bydd y system ar gael yn y Gymraeg yn y 'dyfodol agos', ond peidied Ann Beynon a mynd ar y cyfryngau i gwyno nad pawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg presennol, nes eu bod ar gael am ddim fel yn Saesneg!

Yn y byd symudol, mae'n destun rhwystredigaeth lwyr i mi y gallaf gael gwasanaeth gan Vodafone mewn Basgeg a Chatalaneg, ond ddim yn y Gymraeg.

Yn y byd bancio, cefais achos i ddigaloni yn ddiweddar gan gwmni NatWest. Mater arall ydi'r ffaith iddynt leihau oriau a chwalu statws cangen Blaenau, ond yn ddiweddar, cyflogwyd aelod di-Gymraeg o staff i

weithio yno. Nid oedd yn bosib trafod materion ariannol gyda'm banc yn y Gymraeg yn y cyfnod yna. Mae wedi mynd bellach.

Nodyn brysiog yn unig yw hwn. Mae llawer mwy yn gwylltio rhywun.

Paul Williams

ATODIAD 83

Yn ddiweddar, mor braf oedd hi i gerdded mewn i Morrisons Caerfyrddin a chlywed cyhoeddiadau yn cael eu gwneud yn y Gymraeg, ac o weld opsiwn Gymraeg ar y pwyntiau talu eich hunain yn Tesco, opsiwn yr wyf ar bob achlysur yn ei ddefnyddio.

Ar y llaw arall, diflas yw mynd i siopau fel Next a Wilkinsons a gweld dim Cymraeg o gwbl ar gyfil y lle.

Mor braf y buasai gweld y Gymraeg ym mhobman, temlo yn gartrefol ymhoban gan weld eich bod dal yng Nghymru fach, gyda'r ymdeimlad bod siopau wirioneddol yn ymddengus fel pa baech yn meddwl rhywbeth iddynt wedi'r cyfan."

Gweirydd Davies,

ATODIAD 84

Dwi ddim yn hapus gyda gwasanaethau Cymraeg ym y sector breifat yn gyffredinol. E.e. gwasanaethau post. Swyddfa'r Post yn gwmni preifat, ac yn ei le mae pobol fel DHL, Parcelforce, UPS etc. sydd heb ddim protocol Cymraeg o gwbl. Mae'r cwmnïoedd yma'n cynnig gwasanaeth reit gyhoeddus.

Huw Waters

ATODIAD 85

Credaf nad yw'r ddarpariaeth o'r Gymraeg yn ddigonol o gwbl yn y sector breifat. Un enghraifft sydd yn fy mhoeni i ydy nad oes unrhyw cwmni ffon yn darparu unrhyw fath o Gymraeg ar gyfer eu cwsmeriaid . Gyda phob ffon symudol mae yna nifer o bapurau a chytundebau yn dod a dim un yn dod yn y Gymraeg dim ond ar gais arbennig. Mae hyn yn annerbyniol ac mae agen i bethau newid.

Siriol Teifi

ATODIAD 86

Fel Cymro Cymraeg teimlaf fod gen i'r hawl i wneud popeth drwy gyfrwng y Gymraeg yma yng Nghymru. Ond er gwaetha'r modd, nid yw hyn yn realiti. Un enghraifft fechan o hyn yw'r faith nad ydwyf yn medru derbyn billiau fy ffon symudol drwy gyfrwng y Gymraeg ar ffurf e-bost. Efallau taw mater fechan yw hyn, ond gyda miloedd o materion bychan ar hyd a lled cymru ym mhob agwedd o fywyd bob dydd, mae'r mater bach yn troi i fod yn fater enfawr a difrifol. Galwaf am mesur iaith cynhwysfawr a fydd yn gadael i mi fyw pob agwedd o fy mywyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynan Llwyd

ATODIAD 87

Tua blwyddyn yn ol, es i mewn i fanc NatWest a gofyn am gael agor cyfrif ISA. Rhoddwyd ffurflen Saesneg i mi a pan ofynais am un Gymraeg, doedd dim un ar gael er bod un i'w chael yn yr iaith Bwyleg! Yn yr un banc, gofynwyd i mi lofnodi ffurflen i gadarnhau fy llofnod, a pan ofynais am honno yn Gymraeg, cefais yr

ymateb "You're just making things difficult". Yn fy marn i, nid yw hyn yn ddigon da-pam bod rhaid i mi lofnodi ffurfleni Saesneg??

Ceri Meredydd

ATODIAD 88

Mae'n warthus fod cwmnïau ddim yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i bobl Cymru. Mae'n cymaint o drueni cerdded lawr prif stryd Abertawe, ac does dim l ddangos eich bod yng Nghymru yn hytrach na unrhyw dre arall yn Lloegr. Does dim Cymraeg i'w weld na'i glywed yn y siopau dillad, siopau trydanol, siopau cerddoriaeth, siopau bwyd, archfarchnadoedd ayb. Rhaid cael mesur iaith gref sy'n cynnwys y sector breifat.

Christopher Francis

ATODIAD 89

Yn gyffredinol, does yna ddim cyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn fy ardal i. 'Rydw i'n byw yng Nghastell Nedd Port Talbot sydd yn ardal eithaf ddi-Gymraeg. Er enghraifft, pan ydw i wedi bod yn siop *CK's* yn archebu papur newydd '*Y Cymro*', gwelodd y ddynes tu gefn y ddesg arian '50c' ar ben y ddalen a gofynnodd hi i mi pam fod raid talu mewn sentiau. Does yna ddim arwyddion Cymraeg yn y siopiau lleol o gwbl er fod yna boblogaeth sylweddol o bobl hŷn sydd â'r iaith Gymraeg yn taith gyntaf iddynt.

Yn Abertawe, sef y ddinas agosaf ataf i, maint bach iawn o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael. Mae yna siopiau mawr yno megis *Next* a *Debenhams* sydd ddim yn darparu unrhyw wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg – ac yn anffodus does yna ddim deddfwriaeth yn eu gorfodi nhw i wneud, hyd yn hyn. Problem mawr 'rydw i'n ei gael yw diffyg staff sydd â dealldwriaeth o'r iaith Gymraeg – mae'r ran fwyaf ond yn siarad Saesneg sydd o ddim defnydd i mi os ydw i am siarad fy mamiaith. Er enghraifft, pan oeddwn i'n siopa yn y ddinas ym mis Ionawr 2009, yn *Topman*, es i i'r ddesg arian i brynu cardigan ac wrth i'r cynorthwywraig gwethu wenu ataf i ddangos ei fod hi'n barod i'm gwasanaethu, dywedais i "Shwmae". Doedd yna ddim ateb. Pan ddywedodd hi'r pris (yn Saesneg), dywedais i "Mae gen i'r garden yma i dalu amdano fe, os yw hynny'n bosib". Ei hateb hi oedd "I don't speak *that* language." Mae'r amharch tuag at siaradwyr ein hiaith felly'n amlwg. Ac hyd yn oed mewn ardaloedd o Sir Gaerfyrddin megis Rhydaman, does yna'm fawr o wasanaeth Cymraeg ar gael

Cerith Jones

ATODIAD 90

Fel disgybl sydd ym mlwyddyn ola'r chweched rwy'n edrych i fynd i brifysgol sydd mewn cymuned lle mae'r Gymraeg yn cael digon o ddefnydd. Yn anffodus cefais fy siomi gan fod cyn lleied o Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn siopau yn nrefi/dinasoedd prifysgolion Cymru. Siomedig ydyw fy mod wedi cael fy nghodi i fyny i gyda'r Gymraeg fel fy iaith gyntaf, ond nid oes gennyf llawer y cyfle yw defnyddio wedi gadael yr ysgol, ac yn fy mywyd pob dydd, heblaw wrth siarad am ffrindiau. Credaf mae'r ateb i hyn yw i greu mesur iaith gryf er mwyn gwella gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dafydd Morgan

ATODIAD 91

O ran busnesau mawr, mae'r adnoddau gyda nhw i fod yn ddwyieithog ond mae nhw'n gwrthod gwneud. Mae'r rhai sydd yn cynnig peth gwasanaeth yn y Gymraeg, fel BT, yn deud bod pobl ddim yn ei ddefnyddio. Ond rydych chi'n gorfod mynd allan o'ch ffordd i chwilio am y gwasanaeth. Dyw pobl ddim yn gwybod amdano, neu dyw'r gwasanaeth ddim cystal, ac yn Saesneg mae petha yn dod onibai eich bod chi'n gofyn. Felly, dyw pobl ddim yn defnyddio'r gwasanaeth oherwydd hyn.

Nia Davies

ATODIAD 92

Yn wyneb y trafferth a gafodd fy mab i gael prawf gyrru Cymraeg mewn ardal Gymraeg ei hiaith, nid wyf yn synnu mai ychydig sy'n mynd allan o'u ffordd i ofyn am wasanaethau Cymraeg. Mae loan yn ddisgybl chweched dosbarth yn Ysgol Dyffryn Teifi ac ar fin cymryd ei arholiadau lefel-A. Gan iddo fod yn ymarfer gyrru, roedd yn awyddus i gymryd ei brawf cyn cymryd yr arholiadau terfynol a mynd i'r coleg wedi gwaith yn yr haf.

Fe wnes i ffonio'r Asiantaeth Safonau Gyrru i logi prawf, a cefais ar ddeall y gellid cymryd prawf Saesneg yn Llanbedr Pont Steffan yn ystod gwyliau'r Pasg neu ar Ddydd Llun cyntaf y tymor newydd (20/4), ond nad oedd modd cymryd prawf yn Gymraeg. Wedi pwyso, trefnwyd 3 "slot" Cymraeg ar gyfer Dydd Mawrth 21ain Ebrill a bydd loan felly yn gorfod cymryd bore o'r ysgol ddau ddiwrnod cyn ei arholiad cyntaf am iddo fynnu gwneud y prawf yn Gymraeg.

Mae loan felly tan anfantais gan ei fod yn mynnu cymryd ei brawf yn Gymraeg. Meddyliais efallai fod amgylchiadau eithriadol y mis hwn, ac felly holais faint o slotiau Cymraeg oedd ar gael ar gyfer profion gyrru yn Llanbedr ym mis Mai. Fe ges i wybod fod 4 slot Cymraeg a thros 90 slot Saesneg - a hynny yn un o drefi Cymreiciaf Cymru. Yng Nghaerfyrddin, roedd y sefyllfa hyd yn oed yn waeth. Nid oedd unrhyw slot Cymraeg ar system yr Asiantaeth ar gyfer mis Mai yng Nghaerfyrddin er bod cannoedd o slotiau Saesneg. Dywedant eu bod weithiau yn gallu symud staff a newid slotiau i rai Cymraeg os gwneir cais arbennig am hyn fel yn achos 'Anghenion Arbennig' eraill !! Dyma oedi a thrafferth ychwanegol lle cewch ateb a llogi prawf yn syth yn unrhyw slot rhydd os gwnewch y prawf yn Saesneg.

Mae loan yn benderfynol o wneud y prawf yn Gymraeg, ac mae aelodau Cymdeithas yr Iaith wedi hen arfer pwyso ar y sefydliad. Ond dyw hi ddim yn syndod o gwbl nad yw mwyafrif ein pobl am gael y trafferth o fynnu gwasanaeth Cymraeg. Twyllodrus iawn yw dadl gwrthwynebwyr Mesur Iaith cyflawn nad oes galw am wasanaethau Cymraeg. Saesneg yw'r norm yn yr holl wasanaethau hyn, a rhaid mynd allan o'ch ffordd i fynnu gwasanaeth Cymraeg. Bu'r gwr o'r Asiantaeth a driniodd y cais hwn yn helpgar iawn, ond mae'n gweithio tu fewn i drefn sy'n rhagfarnu'n erbyn y Gymraeg hyd yn oed yn ein broydd Cymreiciaf. Mae'n warthus fod Bwrdd yr Iaith wedi derbyn hyn yn rhan o Gynllun Iaith yr Asiantaeth ac mae'n dangos eto yr angen am Fesur Iaith cyflawn.

Ffred Ffransis

ATODIAD 93

I need somewhere to vent my anger about what happened at work yesterday. I work for a Welsh local authority offering finance support to schools. Some of my schools are Welsh Schools, and therefore, as a Welsh Speaker I speak in Welsh, to the Welsh head teacher. It was raised in my office yesterday that this may not be 'acceptable'.

Carol

ffynhonnell:

<http://www.haloscan.com/comments/theyallspeakenglish/113823086494225251/?src=hsrs#209267>

ATODIAD 94

Western Mail – 20/03/09 – A long way to go

SIR – Your use of a picture of bilingual Marks & Spencer signage to illustrate the article “Minister sees benefits for businesses that use Welsh” (March 12) was undeserved publicity for a retailer whose stores – at least the ones I know in Carmarthen and Swansea – have almost no bilingual signage and whose product packaging does not make even token use of Welsh.

Although the rights of Welsh-speakers and learners have been on the agenda for 40 years, this sorry state of affairs is still the norm in the private sector.

Provision is still so scant that Mr Rosser of CBI Wales is forced to admit that “there is clearly a lot further to go”.

Our big utilities, retailers and other major private service providers clearly lack the dynamism and vision to lead in the creation of a confident, bilingual Wales. As happens in successful economies like Finland, Quebec or Catalonia, the law should now require them to raise their game.

GARETH POPKINS
Aberystwyth

ATODIAD 95

Feb 10 2009 - South Wales Echo - Why I support the passing of language act

I'M writing to you regarding the recently published Welsh Assembly Government's Welsh Language Legislative Competence Order (LCO).

I fully support the principle that matters relating to the Welsh language should be decided in the National Assembly for Wales.

After all, how can an English Parliament know what is best for the Welsh Language, or even Wales itself. This and other decisions can and should only be made properly by a Welsh Parliament, in Wales.

The passing of this LCO in its current form will give the National Assembly the necessary powers to make a real difference to the people of Wales who have campaigned for so long to receive the most basic of services in their own language.

I call on Wayne David, of Caerphilly, my local MP, and other MPs to make it clear to the Welsh Affairs Select Committee that the proposed LCO is part of the agreed programme of the democratically-elected Welsh Assembly Government. There is cross- party consensus in the National Assembly for Wales with regard to transferring powers to legislate on the Welsh language to the National Assembly, and I urge you to support the passing of the LCO in its current form.

Richard Hill
Bargoed